www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 527
Hydref
2024

# Pencampwyr!

Wel, dyna i chi haf llwyddiannus! Oes yna rhywbeth yn y dŵr yma ym mro'r Eco dudwch? Llongyfarchiadau gwresog i Eurgain Haf, Gareth McGuiness a Sam Woodward ar eich llwyddiannau ar gyrraedd y brig yn eich meysydd arbenigol.

Trowch i dudalen 7 i ddarllen rhagor o hanes Eurgain a'i champ o ennill Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf fis Awst. Roedd ennill y Fedal yn yr Eisteddfod eleni yn hynod o felys gan fod Eurgain a'r teulu wedi ymgartrefu ym Mhontypridd ers blynyddoedd a buont yn weithgar yn cefnogi eu heisteddfod leol. Er hynny, rydym yma ym mro'r *Eco* yn ymfalchïo mai hogan o Benisarwaun wyt ti Eurgain, a bod dy fagwraeth a'th addysg wedi siapio llenor penigamp. Os nag ydach chi wedi darllen llyfr Eurgain, Y Morfach Arian, mynnwch gopi o'ch siop lyfrau leol.

Sgiliau gwahanol ddaeth â llwyddiant i Sam Woodward a Gareth McGuiness, sef seiclo. Daeth Sam yn Bencampwr Cymru drwy guro ras yn Llandrindod. Cewch fwy o'i hanes ar dudalen 31, ac yn Llanidloes bu dau ifanc o Waunfawr hefyd yn llwyddiannus, a throwch i dudalen 15 i weld hanes Erin Bryn Pritchard a Twm Bryn Pritchard.

Pryd oedd y tro d'wytha i ni ddweud bod pencampwr BYD ym mro'r Eco?! Llongyfarchiadau i Gareth McGuiness ar ennill Pencampwriaeth y Byd i feicwyr rhwng 55 a 60 oed. Trowch i'r dudalen gefn i ddarllen hanes Gareth.







## Yn y rhifyn hwn:


- Galwad olaf hen lyfrgell Deiniolen – tud 8
- Eisteddfod Bentref Penisarwaun – tud 4
- Diolch a ffarwél i Alan a Helen Wilcox – tud 13




4


- Holi Hwn a Holi Hon - Iola Gruffydd – tud 19
- Penillion Ffermydd y Fro – tud 20
- Hanes Chwaraeon Gwynedd gyda Meilyr Emrys – tud 31




31

## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



ECO'r Wyddfa
www.ecorwyddfa.co.uk

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## Hwyl Fawr...am y tro!

Bydd Amgueddfa Lechi Cymru yn cael ei gweddnewid a bydd yn cau y drysau - am gyfnod dros dro - o 4ydd Tachwedd 2024.

Bydd y project ailddatblygu yn rhoi bywyd newydd i'n Hamgueddfa boblogaidd a bydd yn gwarchod ein hadeiladau hanesyddol gwych a chasgliadau pwysig fel bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu profi a mwynhau hanes anhygoel llechi.

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan yr Amgueddfa.

## Llythyr

**Apêl Afalau**

Oes gennych chi ormod o afalau ar eich coeden afal a ddim eisiau iddynt fynd i wastraff?

Mae'n adeg honno o'r flwyddyn eto pan fydd tîm yr ardd Antur Waunfawr yn cynhyrchu seidr! Byddem yn ddiolchgar iawn o unrhyw roddion o afalau! Dewch â nhw draw i Dewi neu Aled ar ein safle yn Waunfawr.

Mae pob ceiniog a godir drwy werthu'r seidr yn mynd tuag at weithgareddau'r Antur.

Antur Waunfawr, Bryn Pistyll, Waunfawr,
LL5 4BJ 01286 650721
swyddfa@anturwaunfawr.cymru

## Cymdeithas Bob Owen

**FFAIR LYFRAU**
yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy
Dydd Sadwrn, 12fed Hydref
rhwng 10 a 4 o'r gloch

Pris Mynediad: £1

01286 676435
abermenai@btinternet.com

## Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

| | |
|---|---|
| £5 | Mrs Beryl Ellis, Hafan Elan, Llanrug |
| £10 | Mona Parry, Deiniolen |
| | Teulu Gwen a Oliver Edwards |
| | Er cof am Meira Rowlands |
| | Jean Roberts, Treflys, Penisarwaun |
| £20 | John a Yvonne Regan. Deiniolen |
| £30 | G ac N Gruffudd, Deiniolen |


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus



LIZ SAVILLE ROBERTS AS
Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd

8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
liz.savilleroberts.mp@parliament.uk
01286 672 076
Liz Saville Roberts AS/MP


# Dyddiadau i'w cofio...



| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Tachwedd | 11 Hydref | 25 Hydref |
| Rhagfyr | 8 Tachwedd | 22 Tachwedd |
| Ionawr | 6 Rhagfyr (sylwer! - wythnos ynghynt na'r arfer) | 20 Rhagfyr (sylwer! - wythnos ynghynt na'r arfer) |

# Digwyddiadau Lleol











# Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Cyfeillion?** Mae darganfod caer Rufeinig yn ne-orllewin Cymru wedi codi amheuaeth ynglŷn â'r gred gan haneswyr ac archaeolegwyr fod llwyth y Demetae yn byw'n heddychlon gyda'r Rhufeiniaid, ac yn cydweithio â'i gilydd i wrthsefyll ymosodiadau'r Siluriaid. Credir hefyd fod caer Rufeinig arall wedi ei darganfod yn ne Ceredigion sy'n awgrymu fod y Rhufeiniaid wedi codi nifer eraill o gaerydd na chawsant eu darganfod hyd yma. Byddai'r caerydd hyn wedi eu codi ar diroedd y Demetae, sy'n awgrymu nad oeddent hwythau chwaith mor barod i dderbyn y mewnfudwyr!
- **Twyll.** Banc Lloyd's yn rhybuddio eu cwsmeriaid rhag prynu tocynnau i gemau pêl-droed yr Uwch Gynghrair o safleoedd ar-lein yn cynnig bargeinion.
- **Ymwelwyr**. Adroddwyd fod 42 miliwn o bobl wedi ymweld â Sbaen yn ystod chwe mis cyntaf eleni. Mae'r boblogaeth leol yn y canolfannau twristaidd yn cwyno – ac yn gweithredu, yn enwedig yn Mallorca, Barcelona ac Ynysoedd y Canary. Y gŵyn bennaf yw cynnydd ym mhrisiau tai a'r diffyg mewn tai fforddiadwy i drigolion lleol. Stori gyfarwydd?
- **Gwersi.** Mae plant ysgol ym Mharc Gwarchodaeth Natur Dyffryn Savé yn Zimbabwe yn cael gwersi ar sut i adnabod olion traed anifeiliaid gwyllt, symudiad y gwynt a'r modd y mae'r tywod a phriddoedd sych yn cael eu heffeithio. Mae'r plant yn cael eu targedu oherwydd fod y mwyafrif ohonynt yn cerdded hyd at dair milltir i gyrraedd eu hysgolion agosaf. Y plant hefyd sy'n cael eu hanfon allan i'r gwyllt i gasglu tanwydd a chario dŵr.
- **Wystrys**. Mae gwelyau magu wystrys yn cael eu sefydlu yn y môr ar hyd arfordir yr Iseldiroedd i achub y tir oherwydd fod lefel y môr yn codi. Mae'r gwelyau yn atal cyflymder y tonnau hefyd, sy'n golygu fod llai o erydu. Mae'r dechneg yn cael ei defnyddio hefyd yn Bangladesh ble mae chweched rhan o'u tir dan fygythiad o ddiflannu i'r môr erbyn 2050, a gorfodi dros 20 miliwn o'r boblogaeth i symud.
- **Nadroedd**. Cynhaliwyd Sialens Python Florida yn ystod yr haf, ble mae dros £20,000 o wobrau'n cael eu cynnig am ddal a lladd y Burmese Python. Arferid eu cadw fel anifeiliaid anwes (!!) ond i lawer gael eu gollwng i'r gwyllt a chynyddu'n sylweddol gan achosi difrod difrifol i ecosystem naturiol yr Everglades. Eleni roedd dros 600 o bobl wedi cofrestru i gymryd rhan yn yr helfa.
- **Afanc.** Mae dau afanc wedi eu geni ym Mharc Cenedlaethol y Cairngorm yn yr Alban. Credir mai dyma'r rhai cyntaf i'w geni yn y gwyllt yno ers 400 mlynedd.
- **Pêl-droed.** Cafodd dau o chwaraewyr rhyngwladol Sbaen eu gwahardd gan Gynghrair Pêl-droed Ewrop (UEFA) oherwydd iddynt ddatgan yn gyhoeddus mai eiddo Sbaen yw Gibraltar. Cymdeithas Bêl-droed Gibraltar wnaeth y gŵyn swyddogol.
- **Gwasanaeth Milwrol**. Am y tro cyntaf ers 2008 mae Croatia yn ail-gyflwyno dau fis o wasanaeth milwrol gorfodol o Ionawr 2025 ymlaen. Yn ôl Gweinidog Amddiffyn y wlad mae'n cael ei gyflwyno o ganlyniad i densiynau yn Ewrop.
- **Weyba**. Mae brigau a dail y goeden sy'n tyfu'n naturiol yn Ethiopia yn cael eu llosgi a'r mwg yn cael ei ddal mewn clogyn neu sach o ledr sy'n gorchuddio person sy'n dioddef yn ddrwg o boenau cyhyrol. Mae profion gwyddonol pellach yn awgrymu fod effeithiau meddyginiaethol yn deillio o'r dail.
- **Morloi.** Bu'n rhaid gwrthod mynediad i bobl ar draeth San Carlos yng Nghaliffornia oherwydd fod cannoedd o forloi wedi ymgynnull yno. Darganfuwyd fod bron pob un o'r morloi yn rhai gwryw. Does dim eglurhad hyd yma gan naturiaethwyr pam fod hyn wedi digwydd.
- **Coed.** Mae Derwen Gregynog wedi ei dewis ymhlith y chwe choeden fydd yn cystadlu am 'Goeden y Flwyddyn' eleni.
- **Gwylanod**. Mae cwmni o Ynys Manaw sy'n gwerthu bwydydd parod, yn enwedig pysgod a sglodion, yn cynnig yswiriant am £1 y pryd, rhag ofn i wylanod ei ddwyn cyn i'r prynwr gael cyfle i'w fwyta.
- **Grawnwin.** Mae tywydd eithriadol o boeth dros y misoedd diwethaf wedi achosi i dyfwyr grawnwin gwledydd y Balkan eu casglu fis ynghynt nag arfer. Tua canol Medi yw'r amser traddodiadol, ond fe'i gorfodwyd i'w casglu ganol Awst eleni oherwydd fod y grawnwin wedi aeddfedu. Cafwyd peth trafferth i gyflogi gweithwyr tymhorol hefyd, ond y gred gyffredinol yw y bydd safon y gwin yn well na'r arferol oherwydd fod mwy o siwgr yn y grawnwin, a hwnnw'n troi'n alcohol. Dywedodd llefarydd ar ran y tyfwyr mai Gwin 2024 fydd yn hawlio'r pris gorau mewn blynyddoedd i ddod.
- **Capel Celyn?** Ddim yn hollol, ond daeth adfeilion Kallio yng ngwlad Groeg i'r amlwg am y tro cyntaf ers dros ddeugain mlynedd oherwydd sychder difrifol yn neheudir y wlad. Cafodd y pentref, yn cynnwys ysgol, eglwys a thua 80 o dai ei foddi i greu cronfa ddŵr Mornos, a dyma'r tro cyntaf i'r adfeilio ymddangos ers y boddi.

# PENISARWAUN











**Eisteddfod Bentref 2024**

Cawsom chwip o noson ar nos Fercher, 17eg o Orffennaf, pan gynhaliwyd ein Eisteddfod Bentref yn y Neuadd Gymuned. Mae ein diolch yn fawr i bawb a gefnogodd mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys y Pwyllgor gweithgar dan arweiniad ein Cadeirydd ffyddlon, Phyllis Ellis, ac i'r beirniaid am roi o'u hamser.

Diolch i Liz a Phyllis am arwain y noson a gwneud i bawb (gan gynnwys y plant lleiaf, tair oed) deimlo mor gyfforddus ar y llwyfan; i Anest Bryn a Lois Eifion am gyfeilio, i Marina Bryn ac Anest am gynnal ymarferion canu hefo'r plant am wythnosau cyn yr Eisteddfod, i Mali am gyflwyno'r medalau, i Carys a Leona am fod yn gyfrifol am yr arian, i Delyth am ddarparu gwledd i'r beirniaid ar y noson, ac i bawb fu'n helpu fel arall gyda'r trefnu ac ar y drws.

Hoffem gymryd y cyfle i roi diolch arbennig i Ann Ifans, Brithdir, am roi deugain mlynedd o wasanaeth fel Ysgrifennydd y pwyllgor – ni fuasai digwyddiadau cymunedol fel hyn yn digwydd onibai am ymroddiad ac ymdrech pobol fel chi, felly diolch yn fawr gan y pentref oll. Mae Ann bellach wedi pasio'r awennau ymlaen i Caryl ac Elin, ond yn parhau i fod yn brysur yn dysgu'r plant (a'r oedolion!) i lefaru.

Ar y thema o ddiolch, hoffem estyn ein diolchiadau i'r beirniaid am roi eu hamser. Diolch i Angharad Price unwaith eto am feirniadu'r gwaith llenyddol, a pharatoi sylwadau clên a thrylwyr. Diolch i Jean Roberts a Pat Jones am roi eu hamser i feirniadu'r gwaith cartref a choginio. A diolch i Sian Wheway, Cwm y Glo, a Ken Huws, Cricieth, am feirniadu'r cystadleuthau llwyfan ar y noson. Diolch i chi'ch dau am feirniadaethau hwyliog ac am ei gwneud hi'n noson o fwynhad i ni gyd.

Diolch i staff a phennaeth yr Ysgol Gymuned am bob cefnogaeth unwaith eto eleni, ac am roi amser i baratoi gwaith gyda'r plant. A diolch, wrth gwrs, i'r rhieni am ddod a'r plant i'r ymarferion ac am baratoi'r eitemau adref hefo'r plant.

Dechreuodd y paratoadau ar y p'nawn Mawrth 16eg gyda Jean a Pat yn beirniadu'r gwaith cartref a coginio. Cawsant amser da iawn yn blasu a phrofi'r holl ddanteithion yn y gwaith coginio, ac yn dotio at safon y gwaith cartref ac arlunio.

Ar y p'nawn Mercher, cynhaliwyd seremoni cyflwyno medalau i'r plant cynradd yn yr Ysgol am eu llwyddiannau yn yr adrannau llenyddol, arlunio, cyfrifiadureg a choginio. Phyllis a Caryl fu'n arwain y sesiwn yma, a Leona'n gyfrifol am rannu'r arian a medalau i'r plant. Roedd yn braf iawn gweld y cyffro ymysg y plant wrth i'r canlyniadau a sylwadau'r beirniaid gael eu rhannu, a'r gwobrau gael eu cyflwyno.

Am 6.00pm, dechreuodd yr Eisteddfod gyda anerchiad gan Phyllis Ellis, ac emyn gynulleidfaol Calon Lân. Tro'r plant lleiaf oedd hi gyntaf i ganu a llefaru, a daeth tri bach dewr i'r llwyfan. Braf oedd clywed eu fersiwn hwythau o 'Heno Heno' ac 'Ifan bach a minnau'.

Yna cafodd y plant cynradd y cyfle i gystadlu'n unigol ar y canu a llefaru, ac mewn grwpiau. Braf oedd gweld cymaint yn cystadlu, ac eu gweld yn mwynhau'r profiad.

Cawsom wledd o gystadlu yn y cystadleuthau offerynnol cynradd, gyda sawl un yn cystadlu ar yr unawd piano cynradd ac unawd offerynnol cynradd. Zak oedd yn fuddugol ar yr unawd Piano. Ar yr unawd offerynnol, Noa a Myfi ddaeth i'r brig – Noa'n canu'r corn a Myfi'r gitâr.

Braf oedd clywed cymaint yn cystadlu ar yr Alaw Werin hefyd, gan ganu 'Fuo Chi rioed yn morio'. Diolch i Marina ac Anest am ddysgu'r plant a chadw traddodiad yr Alaw Werin yn mynd. Myfi ddaeth i'r brig ar y gystadleuaeth, gyda Noa'n ail, ac Awel a Lili yn gydradd drydydd.

Dyma ddetholiad o'r canlyniadau eraill:

Cyflwynwyd Cwpan er cof am Mrs Eluned Porter, yn rhoddedig gan Mrs Pat Jones, am ddod yn fuddugol ar yr Unawd Blwyddyn 1 a 2 i Heledd am ganu 'Siapiau' mor swynol.

Cyflwynwyd Cwpan i enillydd y gystadleuaeth llefaru blwyddyn 5 a 6 i Myfi am lefaru Myrddin, yn rhodd gan Phyllis Ellis er cof am ei Thad.

Cyflwynwyd Cwpan i Barti Awel am ddod i'r brig ar y gystadleuaeth Parti Llefaru blwyddyn 3-6, yn rhodd gan deulu Tan y Gaer gynt er cof am Mr Bob Williams, Fron Hywel.

Cyflwynwyd Tlws er cof am Sharon Wooley i Ioan Miners am y perfformiad llefaru gorau yn yr adran cynradd. Roedd Ioan yn adrodd y darn 'Beth am fynd'.

Cyflwynwyd Tlws er cof am Leslie a Nancy Jones, Meillionydd, i Myfi Hughes am y perfformiad mwyaf addawol yn yr adran cynradd.

Roedd cystadleuaeth newydd eleni, cystadleuaeth '*Sgen Ti Dalent? Cynradd*', gyda'r enillydd yn derbyn gwobr ariannol a Thlws Er Cof am Gareth Fôn Jones, yn rhodd gan Nia George, i'w gadw am flwyddyn. Bu Gareth yn bennaeth yn yr Ysgol Gymuned am flynyddoedd, a braf oedd gweld cymaint o blant yr ysgol yn cystadlu ac arddangos amrywiaeth o feysydd – megis 'sketch' wreiddiol Ioan, Elis, Hugo, Leo, Jac ac Osian; dawnsio creadigol Heledd, Ceira, Anest ac Awel; perfformiadau cerddorol Myfi, Zak a Sky, a chyflwyniad digri

















Noa. Roedd yn bleser bod yn y gynulleidfa i fwynhau'r holl berfformiadau. Noa ddaeth i'r brig hefo'i gyflwyniad digri a gwreiddiol am gystadlu yn y 'Steddfod, ac roedd y gynulleidfa wir wedi mwynhau hon gyda chwerthin dros y lle– llongyfarchiadau mawr i ti Noa, a diolch i Nia George am gyflwyno'r Tlws i Noa.

Elin Tomos oedd Llywydd yr Eisteddfod eleni. Mae Elin yn gyn-ddisgybl Ysgol Gymuned Penisarwaun ac Ysgol Brynrefail, ac mae hi bellach yn astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Bangor. Yn ei anerchiad, rhoddodd Elin ychydig o'i chefndir ac esbonio pa mor bwysig mae cyfleoedd yn y pentref wedi bod yn ei datblygiad – megis Ysgol Sul Bosra, ei datblygiad yn yr Ysgol Gynradd dan arweiniad Gareth Fôn Jones, a chyfleoedd i gystadlu yn Eisteddfod Bentref Penisarwaun ac Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Elin oedd Prif Lenor Eisteddfod Penisarwaun yn 2017, 2018 a 2019 a hi gipiodd wobr 'Tlws yr Ifanc' yn Eisteddfod Brynrefail yn 2016. Diolch i ti Elin am gytuno i fod yn Lywydd yr Eisteddfod eleni, ac am dy anerchiad. Pob hwyl i ti i'r dyfodol.

Daeth hi'n amser cyflwyno Tarian yr Eisteddfod i'r Prif Lenor Oed Cynradd. Yn ôl beirniadaeth Angharad Price, roedd sawl darn o ryddiaith a barddoniaeth wedi plesio eleni ac anodd iawn oedd dewis enillydd. Ond, Noa ddaeth i'r brig gydag Adroddiad Papur Newydd yn deillio o'r stori 'Gadael Cartref'.

Tro'r disgyblion uwchradd oedd hi wedyn. Cawsom ddau berfformiad cryf a cherddorol yn y gystadleuaeth '*Sgen ti dalent? Uwchradd*', gan Elin Dafydd a Mali. Elin Dafydd ddaeth i'r brig gyda perfformiad digyfeiliant o 'Adre'n ol' a chyflwyniad o'r sioe gerdd adnabyddus, Waitress. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonoch am gystadlu.

Cyflwynwyd Cwpan yr Eisteddfod am y Prif Lenor Oed Uwchradd i Ifan Miners eleni am ddau ddarn a dderbyniodd ganmoliaeth uchel iawn gan Angharad Price – cerdd 'I Gymru' a stori 'Peidiwch a dweud wrth neb!'. Llongyfarchiadau mawr, Ifan, a caria 'mlaen i ysgrifennu!

Braf oedd gweld llond llwyfan o aelodau Band Cymunedol Deiniolen yn cystadlu ar y gystadleuaeth offerynnol agored. Cafodd y gynulleidfa eu cyfareddu gan y sain, a diolch i chi am gefnogi'r Eisteddfod.

Cafodd yr oedolion gyfle i ddangos eu doniau cyn diwedd y noson, gyda pherfformiadau gan y parti llefaru a chôr cymysg. Un o uchafbwyntiau'r noson oedd y Côr Ysgafn dros 18 oed, a gyflwynodd gan ysgafn ddychan am ein beirniaid – diolch i Marina Bryn am baratoi'r gân, ac i'r beirniaid am ei chymryd hi'r ffordd iawn!

Bu Ken Huws hefyd yn beirniadu'r limrigau a brawddegau i ni – rhai doniol a dwys. Llongyfarchiadau i John Eifion am ddod i'r brig ar y limrig, ac i Eifion Harding hefo'r frawddeg.

Cloewyd y noson gyda diolchiadau gan Phyllis Ellis, a chyd-ganu Hen Wlad fy Nhadau.

Edrychwn ymlaen at Eisteddfod 2025!

# PENISARWAUN

**Llwyddiannau'r haf**
Mae wedi bod yn haf prysur i sawl un o'r pentref sydd wedi bod yn cystadlu mewn amryw Sioeau ac Eisteddfodau. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cael llwyddiant dros yr haf.




**Belt Gwyrdd a Du**
Hoffem longyfarch Elis Roberts, 2 Tai'r Efail, ar basio 'Grading 6th Kyu Tabs', sef Belt Gwyrdd a Du, dan ofal Burman's Martial Art yn Llanberis. Mae Elis bellach wedi pasio chwech belt. Gwych, Elis, a phob lwc gyda'r belt nesaf!

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau i bob un ohonoch fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau gyda phob dymuniadau da i'r dyfodol.

**Babi Newydd**
Braf yw cael croesawu babi newydd i'r pentref! Llongyfarchiadau mawr i Annest a Danny Griffith, Llys Celyn, ar enedigaeth merch fach, sef Nanw Grug, fis Awst. Gobeithio bod Meilir yn mwynhau ei rôl newydd fel brawd mawr.

**Gwellhâd**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r rhai ohonoch sy'n sâl yn y pentref.

**Diolch**
Dymuna Jean, Treflys, ddiolch am y cyfarchion, cardiau lu ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig ar 29ain Awst. Diolchir i'r teulu a phawb a wnaeth y pen-blwydd yn un bythgofiadwy.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Clwb Cant – Dymunir atgoffa aelodau ffyddlon ein Clwb Cant ei bod hi'n amser adnewyddu'r aelodaeth o £12 o Fedi '24 i Fedi '25. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymaelodi gan fod y Clwb yn ffordd hwylus o godi arian tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymunedol arbennig sydd gennym. Cofier fod modd llogi'r Neuadd Gymunedol a'r Ystafell Gymuned a chymryd mantais o'r safle parcio eang am bris rhesymol trwy gysylltu â'r Trysorydd, Glyn Jones, ar 01286 870 433 neu 07772 689 235.
Anfonir ein cofion anwylaf at Catrin, Pennaeth yr Ysgol Gymuned.

**Clwb Dawns Hudoliaeth**
Bu nifer o blant y pentref yn cymryd rhan mewn sioe 'Bywyd Dawnswraig' Clwb Dawns Hudoliaeth yn Galeri, Caernarfon, ddechrau'r gwyliau haf. Roedd yn braf gweld cymaint ohonoch yn cymryd rhan, a llongyfarchiadau i'r tim fu'n trefnu'n ddygn. Mae'r criw yn ymarfer yn Festri Penisarwaun yn wythnosol.

**Bedydd**
Bedyddwyd Lleucu Anest a Nedw Ifan yng Nghapel y Rhos ddechrau'r mis. Hoffai teulu Cae Corniog Bach estyn diolch i aelodau'r Capel am y croeso cynnes, ac i'r Parchedig Nerys Griffiths am wasanaeth hyfryd i groesawu'r teulu i Gapel y Rhos.

**Prosiect Pum Mil**
Mae'r trefniadau ar gyfer Prosiect Pum Mil yn brysur symud yn eu blaenau, a'r cyfnod ffilmio bron yma. Os oes gennych ddiddordeb bod yn rhan o'r prosiect, plis cysylltwch â Rhiannon Jones neu hefo'r tim cynhyrchu ar prosiect@boomcymru.co.uk.

**Eglwys Santes Helen**
Yn dilyn y Gwasanaeth fore Sul 25ain Awst cafodd aelodau yr Eglwys gyfle i ymuno mewn cinio gydag aelodau eglwysi eraill Gweinidogaeth Bro Eryri yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Roedd yr achlysur wedi ei drefnu i ddiolch am wasanaeth ac i ffarwelio â'r Parch Allan Wilcox a'i briod Helen, Nant Peris fu'n gwasanaethu eglwysi y fro dros nifer o flynyddoedd. Cyflwynwyd anrhegion a dymuno yn dda i'r ddau ohonynt ar eu hymadawiad a'r ddau erbyn hyn wedi symud i fyw i Beverley yn Swydd Efrog.

**Gwasanaethau Yr Eglwys**
29ain Medi – 11.00 y.b. – Boreol Weddi
6.00 y.h. – Gŵyl o Gân gyda Chôr Meibion Dyffryn Peris a Phlant Ysgol Penisarwaun
6ed Hydref – 11.00 y.b. – Offeren Sanctaidd
13eg Hydref – 11.00 y.b. – Boreol Weddi a Diolchgarwch
20fed Hydref – 11.00 y.b. – Offeren Sanctaidd
27ain Hydref – 11.00 y.b. – Boreol Weddi

# DINORWIG

**Ffarwel Haf**
Mae hynny o haf a gawsom yn prysur ddiflannu, a phan ddaw'n ddeunawfed o Hydref, yr hen gred yw mai dyma ddiwrnod 'claddu'r haf'. Does ond gobeithio y byddwn wedi cael haf bach Mihangel cyn hynny.

**Digwyddiadau**
Mae tymor yr arholiadau, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ymhell tu cefn i ni. Y bobl ifanc yn eu harddegau wedi gadael yr ysgolion uwchradd a wynebu coleg, prentisiaeth neu waith, tra bo'r plantos bach yn cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf. Cefais fwynhad o wylio'r eisteddfodau ar y teledu, a ddechrau Medi mwynheais ddwy gêm bêl-droed Cymru. Mae'n dda fod sylw teilwng yn cael ei roi ar y teledu i ddigwyddiadau Cymraeg a Chymreig.

**Capel**
Collwyd un o aelodau hynaf Cefn y Waun ym marwolaeth Owie Gibson yn 92 oed. Bu'n ffyddlon iawn yn ei ddydd, a'i lais bendigedig yn gyfraniad gwerthfawr i'r oedfaon. Mae effaith cau'r capeli oherwydd y Covid yn sicr wedi bod yn ergyd drom i sawl capel. Gwan iawn yw'r gynulleidfa yng Nghefn y Waun ac Ebenezer bellach, a heb organydd, mae'n dlodaidd iawn. Nid oes ond byw mewn gobaith y bydd pethau'n gwella.

**Parcio**
Mae problemau parcio ar gynnydd yma yn Ninorwig. Mae pawb yn wybyddus â'r problemau yn yr Allt Ddu, ond daeth y broblem i drigolion Bro Elidir bellach hefyd, yn enwedig dros yr haf. Mae llefydd addas i barcio gan breswylwyr Bro Elidir, ond mae'n ymddangos fod y rhai sy'n dod i aros i wahanol dai haf yn yr ardal (a heb le parcio addas ganddynt) yn defnyddio'r ffordd o flaen Bro Elidir i barcio faniau anferth a cherbydau mawrion dros nos. Mae un ddamwain eisoes wedi digwydd a byddai problem ddifrifol pe bai angen galw y gwasanaethau brys, boed yn injan dân neu'n ambiwlans. Mae gwir angen i gynghorwyr yr ardal roi sylw teilwng i'r hyn sy'n digwydd yma.

**Cartref Plas Pengwaith, Llanberis**
Rydym yn ffodus iawn fod cartref o'r fath yma ym mro'r *Eco*. Mae canmol i'r cartref, y bwyd a'r gofalwyr. Does neb eisiau gadael eu cartrefi, ond pan fo rheidrwydd, mae'n braf meddwl fod Plas Pengwaith o fewn cyrraedd hwylus i'w teuluoedd yn y fro.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at bawb o'r ardal sydd yn dioddef salwch neu anhwylder. Brysiwch wella.

**Gwasanaethau'r Sul yn Nhŷ Elidir, Deiniolen**
Gwnewch sylw o'r amseroedd. Mae rhai oedfaon am 3.30pm ac eraill am 5.00 pm. Mae croeso cynnes – a digon o le – os dymunwch ymuno â ni. Gallwch hefyd ffonio Llanberis 870292 os yn ansicr o'r amser.
**29ain Medi**. Mr Eurfryn Davies, Bangor am 3.30pm
**6ed Hydref**. Mr Dafydd Iwan, Caeathro am 3.30pm
**13eg Hydref**. Parch Dr Elwyn Richards, Caernarfon am 5.00pm
**20fed Hydref**. Parch Nerys Griffiths, Caernarfon am 2.00pm
**27ain Hydref**. Parch John Pritchard, Llanberis am 3.30pm
**3ydd Tachwedd**. Mr Robert Morris, Dyffryn Nantlle am 5.00pm


# Y Fedal Ryddiaith

Roedd Awst 7fed, 2024 yn ddiwrnod o falchder aruthrol i Ann a Dafydd a'r teulu, a theulu 'Rhiwen' Pontypridd, pan enillodd Eurgain Haf wobr Prif Lenor Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Cafodd ei chanmol gan y tri beirniad am "yr arddull ysgrifennu cadarn a'r cymeriadau cyfareddol" yn ei nofel *Y Morfarch Arian*. Bu'n gystadleuaeth gref iawn gyda thri yn deilwng o'r Fedal, ond campwaith Eurgain Haf aeth â hi!

Yn enedigol o 7 Stryd Uchaf, Rhiwlas, symudodd y teulu i Benisarwaun pan oedd Eurgain yn dair oed. Cychwynnodd ei haddysg yn Ysgol Tan y Coed dan ddylanwad ieithyddol gref y Pennaeth, Len Jones a'r athrawon arbennig. Aeth ymlaen i Ysgol Brynrefail, lle bu i Esyllt Maelor a'r diweddar Alwyn Pleming ddylanwadu'n fawr arni, ac yna ymlaen i Brifysgol Aberystwyth.

Dymuna Eurgain ddiolch i bawb am y cyfarchion lu, cardiau niferus a galwadau ffôn. Gwerthfawroga ddylanwad aelwyd Sycharth – yn sicr bu'r anogaeth i gystadlu'n flynyddol yn Eisteddfod Bentref Penisarwaun yn ddylanwadol iawn; a boed i'r Eisteddfod gynnig ei dylanwad am flynyddoedd i gystadleuwyr y dyfodol.

Hoffem fel pentref longyfarch Eurgain Haf, ac edrychwn ymlaen at groesawu Eurgain adref i'r pentref yn fuan er mwyn cael dathlu hefo hi.



## LLANRUG

**Gair o ddiolch**
Dymuna teulu y ddiweddar Pat Pugh ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam-yng-nghyfraith, nain a chwaer annwyl iawn. Roedd Pat yn wreiddiol o Lanrug, merch y diweddar Idwal ac Ethel Pugh, 14 Glan Moelyn. Hunodd yn dawel yng Nghartref Coed Isaf, Llandudno yng nghwmni ei theulu yn 79 mlwydd oed ar 28ain Gorffennaf. Cynhaliwyd y gwasanaeth ar 14eg Awst yng Nghapel Y Rhos, ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Llanrug. Colled drist i'w theulu a'i ffrindiau oll.

**Pen-blwydd arbennig**
Ar 18fed Medi roedd Eryl Roberts, Glanffynnon yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Llongyfarchiadau iddi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Dymunwn y gorau hefyd i Olwen Hughes, Afon Rhos fydd yn dathlu ei 80 hithau ar 25ain Hydref.

**Capel y Rhos**
Ar 31ain Awst, priodwyd Nicola Marie Edwards a Kevin Davies, Madryn House. Llongyfarchiadau iddynt a dymunwn pob bendith ar y briodas.

Fore Sul, 1af Medi, gyda'r gweinidog yn gweinyddu, cawsom wasanaeth hyfryd pan fedyddiwyd Lleucu Anest a Nedw Ifan - plantos bach Caryl ac Ifan Rees, Cae Corniog Bach, Penisarwaun. Braf oedd cael croesawu nifer o aelodau'r teulu atom ar achlysur mor hapus.

**Oedfaon Capel y Rhos mis Hydref**
6ed Hydref – Mr Arwel Williams
13eg Hydref – Oedfa yn Cysegr, Bethel
20fed Hydref – i'w threfnu
27ain Hydref – Ms Eleri Jones

**Clwb Nofio Gwynedd**
Dymuniadau gorau i rai o blant y pentref fydd yn mynd i Mallorca dros wythnos hanner tymor yr Hydref i ddysgu ac i gael hyfforddiant pellach yn y gamp. Mae'n siŵr i nifer ohonynt wylio'r cystadlaethau nofio yn y Gemau Olympaidd gynhaliwyd ym Mharis fis Awst, ac efallai y bydd rhai ohonynt yn mynd ymlaen i ennill medalau eu hunain rhywbryd yn y dyfodol. Pob lwc, a mwynhewch y profiad!

**Cyfweliad ar Radio Cymru**
Rydym fel pentref yn falch o lwyddiant Iolo Eilian, mab Eryl a'r diweddar Islwyn Roberts, Glanffynnon. Ar ôl byw am rhai blynyddoedd yng Ngogledd Iwerddon ble roedd Iolo'n gweithio fel rheolwr gyda gwasanaeth iechyd Gogledd Iwerddon, mae Iolo a'i deulu bellach yn byw yn Galway, ble mae'n gweithio fel is-gyfarwyddwr cenedlaethol gwasanaeth iechyd Gweriniaeth yr Iwerddon. Iolo oedd gwestai Beti George ar ei rhaglen wythnosol 'Beti a'i Phobol' ar Radio Cymru ar y 15fed o Fedi, ac os na lwyddoch chi i glywed y rhaglen, mae modd gwrando eto ar BBC Sounds. Gwych iawn Iolo.

**Profedigaeth**
Danfonwn ein cydymdeimlad llwyraf i deulu y ddiweddar Rhiannon Wyn Hughes, Clawdd Newydd, Llanrug a fu farw yn frawychus o sydyn ar y 4ydd o Fedi yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl yn 84 mlwydd oed. Colled drist i'w theulu a'i ffrindiau oll. Rydych yn ein meddyliau yn ystod y cyfnod anodd yma.

**Merched y Wawr**
Estynnwyd croeso i nifer dda o aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor gan y llywydd, Bethanne Williams.

Llongyfarchwyd Rhian a Jean ar ddathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar a dymunwyd yn dda i Eryl a fydd yn dathlu ym mis Medi. Llongyfarchwyd Julie a Dennis a Pat a Berwyn ar ddathlu eu Priodas Aur.

Braf oedd cael llongyfarch Eurgain Haf o Bontypridd a wnaeth ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Mae Eurgain yn ferch i Ann a Dafydd Ifans, Penisarwaun a hyfryd oedd clywed iddi nodi ei bod yn ddyledus i drefnwyr Eisteddfod Penisarwaun. Cafodd anogaeth i gario ymlaen gyda'i gwaith ysgrifennu creadigol pan yn cystadlu yn yr eisteddfod honno.

Derbyniwyd adroddiad ariannol gan Pat a diolchwyd iddi am y cardiau aelodaeth arbennig.

Bydd y Ffair Aeaf yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd a chafwyd manylion am y cystadlaethau.

*CREFFT*
Robin Goch [neu fwy nag un] unrhyw gyfrwng
Eitem yn defnyddio lliwiau coch ac oren/coch/oren. Gellir defnyddio lliwiau ychwanegol
Ffotograff neu baentiad unrhyw gyfrwng a maint. Testun – Y Gaeaf.

*COGINIO*
Fferins/ losin/ danteithion siocled ar gyfer y Nadolig.
Cynhelir darlith gan Sian Howys yn Festri Capel y Porth, Porthmadog ar 8fed Hydref am 7.00pm a'r testun fydd 'Deiseb Heddwch Menywod Cymru'. Mynediad £3 [at Ambiwlans Awyr Cymru]
Bydd y Cwis Hwyl yn cael ei gynnal yn Neuadd Groeslon ar 8 Tachwedd.
Bydd Bore Coffi Macmillan yn y Sefydliad Coffa ar 27ain Medi.
Diolchwyd i Annwen a Heulwen am ofalu am y baned ac i Carys Wynne am y raffl.

Gŵr gwadd y noson oedd Aled Davies a'i destun oedd 'Dros Ben Llestri'

Mae Aled yn weinidog yn Chwilog ers 24 o flynyddoedd ond un o Lanllwni ydi o yn wreiddiol. Mae ganddo gasgliad eang o lestri ag iddynt gysylltiad Cymreig neu grefyddol a diddorol oedd gwrando arno'n siarad gyda'r fath frwdfrydedd. Nid syndod oedd deall i'w fam fod yn berchen ar siop lestri.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 8fed Hydref pryd bydd Bob Morris yn cyflwyno 'Hanesion Butlins'.

Croeso i aelodau newydd.

# DEINIOLEN

**Galwad Olaf am Help i Brynu'r Hen Lyfrgell**

Dyma gais gan Bwyllgor Pentra Deiniolen am help i brynu hen adeilad y llyfrgell yn y pentref. Yn anffodus, rydym wedi methu cael arian grantiau o ffynonellau amrywiol hyd yma i brynu'r llyfrgell – llefydd fel Cyngor Gwynedd, Grymuso Gwynedd a Chronfa Ffyniant Bro ac ati. Mae'r perchennog eisiau £200,000 am yr holl safle ac mae'r Pensaer wedi dweud ein bod angen rhwng £300,000 a £350,000 i'w wneud o i fyny – hanner i wneud y clwb snwcer a'r hanner arall yn ganolfan gymunedol. Felly rydym yn chwilio am o leiaf £550,000. Mae'r cais cynllunio wedi ei gymeradwyo. Rydym wedi ein gwahodd i rownd derfynol i gael arian gwerth £300,000 gan Adran Cymunedau Llywodraeth Cymru ond nid oes gennym *'match'* - sef swm o arian angenrheidiol tuag ato felly does dim pwrpas i ni roi y cais i mewn. Opsiwn arall ydy ein bod yn trio casglu £200,000 ein hunain drwy *Crowd Funding* fel ein bod yn perchenogi'r safle o leiaf.

Mae'r Pwyllgor yn griw gweithgar yn y gymuned ond mae angen sgiliau a phrofiad ychwanegol i helpu gyda'r ymgyrchu, i dynnu sylw ac i wneud ceisiadau am arian ac ati. Er ein bod wedi trio galw am gymorth, hyd yn hyn nid ydym wedi llwyddo i gael pobl er mwyn cael popeth sydd ei angen i baratoi cais cryf. Yn ddelfrydol rydym eisiau pobl sydd â phrofiad neu sydd â chefndir cyfreithiol, busnes, cymunedol, ariannol neu adeiladu i'n helpu ni, i'n cynghori ni ac i'n cryfhau. Mae yna bobl gyda thalent a sgiliau yn byw yn y pentra - ac efallai wedi gadael y pentra ond a'u gwreiddiau a'u calonnau yn parhau i fod yma - rydym wir angen i chi ddod ymlaen i helpu, hyd yn oed am gyfnod byr.

Plis cysylltwch gyda ni, rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn.

Yn anffodus, os nad ydym yn llwyddiannus gyda'r alwad olaf hon am gymorth, byddwn yn dweud wrth y perchennog erbyn diwedd mis Hydref na allwn brynu'r adeilad a bydd yn cael ei osod ar y farchnad agored mae'n debyg. Mae'r perchennog wedi bod yn amyneddgar iawn yn aros ac nid ydym yn teimlo ei fod yn deg gadael iddo aros am byth.

Os all rhywun helpu Deiniolen byddwn yn ddiolchgar iawn. Does yna unman yma i blant a phobl ifanc na'r un oedran arall i wneud fawr o ddim ac mae hyn yn ein digalonni yn fawr ac yn ein gwneud yn flin a rhwystredig hefyd pan ydym yn gweld cymunedau eraill yn ffynnu. Mae'r potensial yn enfawr ond allwn ni ddim o'i wireddu ar ein pen ein hunain.

Dyma'r cyfla olaf cyn i gyfle arall gael ei golli yma ym mhentra Deiniolen. Plîs plîs cysylltwch efo ni.

Aelodau'r Bwrdd ydy Johnjo, Deborah, Dion, Leia, Lyndsey, Siân, Nesta a Tony.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i'r Canon Idris a Mrs Ann Thomas, Glanrafon, ar ddathlu Penblwydd Priodas Aur ddiwedd Awst. Braf oedd cael teulu'r gogledd a'r de at ei gilydd am ginio yn y Bistro ym Mhontrug. Llawer o gariad a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol gan y teulu oll!

**Cynghorydd Elfed Williams, Deiniolen**

Mae'r person sydd wedi bod yn dod i fyny gyda'r fan Swyddfa Bost symudol ar bnawn dydd Gwener wedi cael swydd newydd ac felly bydd y gwasanaeth yn dod i ben am y tro tan y bydd yna rhywun i gymryd ei le.



Diolch i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd am y gwaith sydd wedi ei wneud ar stryd fawr Deiniolen i fyny at waelod Tan y Foel. Diolch hefyd i staff y cyngor am dorri gwair y fynwent ddiwedd Awst.

Cefais gwynion am gyflwr to Capel Eban. Rwyf wedi cael yr adran o'r cyngor sydd yn delio â diogelwch adeiladau i fyny a chefais nodyn ganddynt i ddweud fod y to yn saff.

Diolch i'r unigolyn sy'n berchen tir ger yr hen doiled am dacluso i fyny yn ddiweddar.

Diolch i Scottish Power am dacluso y tir gyferbyn â Rhes Gweledfa yn ddiweddar.

Diolch i'r Cyngor am eu gwaith yn clirio Cae'r Bwthyn - sef cae pel-droed Deiniolen.

**Diolchiadau**

Dymuna John, Yvonne, Jack a Lois Regan ddiolch i bawb am y cardiau, negeseuon a galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur trist o golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain mor annwyl. Bu farw Pat Pugh yn dawel yng nghwmni ei theulu ar 28ain Gorffennaf yng Nghartref Coed Isaf, Llandudno. Diolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a chydymdeimlad.

Dymuna Mona Parry, 13 Hafod Olau, Deiniolen, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a ffrindiau a chymdogion am fod mor ffeind tra'n dathlu ei phenblwydd yn 90 oed.

**Cydymdeimlo**

Ein cydymdeimlad â theulu y ddiweddar Meira Rowlands a fu farw yng nghartref Willow Hall, Caernarfon ar y 7fed o Fawrth eleni yn dilyn damwain a tharo ei phen. Dymuna'r teulu fynegi eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad. Eu diolch hefyd i'r Parch. John Pritchard am ei wasanaeth yn Eglwys Crist, Llandinorwig; i Mrs Eleri Bean wrth yr organ, ac i'r ymgymerwyr E.W.Pritchard, Llanberis am eu dull annwyl ac urddasol ar ddiwrnod yr angladd.

Dymuna Kevin, Wendy a'r teulu oll ddiolch am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod ac wedi eu profedigaeth lem o golli mam, nain a hen nain mor ddisymwth; gan ymddihero am fod cyhyd cyn gallu gwneud hynny yn gyhoeddus. Mae'r cyfraniadau wedi eu cyflwyno i wahanol elusennau.

**Eglwys Crist Llandinorwig**

Cynhelir ein Gŵyl Diolchgarwch blynyddol ar ddydd Sul Hydref yr 20fed am dri o'r gloch. Bydd ein Ficer, y Barchedig Ganon Naomi Starkey, sydd hefyd yn Arweinydd Gweinidogaeth Bro Eryri, yn gweinyddu yn ein gwasanaeth. Estynnir gwahoddiad cynnes iawn i unrhyw un i ymuno gyda ni yn y gwasanaeth arbennig yma. Yn sicr, mae gennym i gyd le mawr i ddiolch.

Fel y gwyddom, er mor drist, mai Eglwys Crist yw yr unig adeilad i addoli ynddo yn y pentref erbyn hyn, lle gellir cynnal priodasau, angladdau, bedyddiadau a gweithgareddau eraill. Mae hyn yn dangos yn glir felly mor bwysig ac angenrheidiol yw cael yr Eglwys yn ein pentref. Mae drws Eglwys Llandinorwig led y pen yn agored i bawb bob amser. Gyda diolch a phob bendith.

Dyma wasanaethau mis Hydref.
Byddant i gyd am 3 o'r gloch:
6ed - Hwyrol Wedi
13eg - Cymun Bendigaid
20ed - Gwasanaeth Diolchgarwch.
27ain - Hwyrol Weddi








Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl

LLYSIAU LLEOL FFRES

Ymunwch â'n cynllun llysiau!

Dewch i'n siop!


- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**




# Disgynyddion William a Margaret Williams, Tŷ Capel, Llanrug





QUARRYMEN'S LIBRARY.—The new library at Dinorwic, near the Slate Works, continues to progress favourably upon voluntary contributions, and is getting on rapidly. The grants of books have been liberal, and the money to purchase already amounts to a large sum. The above library is formed for the service of the young quarrymen in their idle hours. We have no doubt that this undertaking will attain the end proposed. All the contributions will shortly be publicly announced. Mr. David Williams, Ty Ddewi, and Mr. Robert Parry, Ty'n y Fawnog, the chief founders, as well as corresponding secretaries to the library, are highly to be commended for their exertions.

William a Margaret Williams oedd y rhai cyntaf i fyw yn Tŷ Capel, Llanrug wedi iddyn nhw symud yno ym 1798 o Twll Clawdd. Mae'n debyg mai mab William Bevan a'i wraig Jane, Erw Hywel, oedd William Williams. Mae cofnod o'i fedydd ar 29 Medi 1762. Margaret Griffith oedd Margaret cyn priodi, ac mae'n debyg mai merch Griffith Williams a Jane, Tyddyn Mawr oedd hi, wedi ei bedyddio 3 Awst 1765. Cyn agor Capel Mawr Llanrug, byddai'r ddau'n arfer cerdded i Frynengan i wrando ar bregethau – taith o dros 30 milltir yn ôl a blaen.

Benjamin oedd mab hynaf William Williams a Margaret, crydd fel ei dad, ac yn rhedeg ei fusnes o'i gartref, 13 Pool Lane, Caernarfon. Ceir ei enw ar restr *Caernarfon Traders* fel 'Boot and Shoe Maker' o 1840 hyd at 1878.

Mab i Benjamin oedd John Williams, llyfr-werthwr yng Nghaernarfon, pregethwr efo'r Wesleaid a bardd (Ioan Mai). Dyma a ddywedir amdano yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*.

*Ganwyd 13 Mai 1823 yng Nghaernarfon fab i Benjamin a Mary Williams. Addysgwyd ef yn yr Ysgol Genedlaethol yno, ac yna fe'i prentisiwyd i'r Mri. W. Potter, llyfrwerthwyr yng Nghaernarfon a Phwllheli. Tua 1847 agorodd John Williams ei siop lyfrau ei hun yn Bridge Street, Caernarfon, ac er nad oedd ond glaslanc prin ei gyfleusterau, llwyddodd ar ei union. Yr oedd yn ddarllenwr mawr iawn, a datblygodd ddiddordebau llenyddol helaeth a wnaeth iddo gyfeillion o'r athrawon Joseph Loth, o Brifysgol Rennes, ac E. B. Cowell, Caergrawnt. Dywedir iddo gynorthwyo'r olaf gyda'i gyfieithiadau Saesneg o weithiau Dafydd ap Gwilym. Ysgrifennodd 'Ioan Mai' lawer o gerddi rhydd, rai ohonynt gogyfer â chystadleuthau eisteddfodol, ond er bod ei draethawd anorffenedig, 'The characteristics of Welsh poetry,' yn profi ei fod yn medru'r cynganeddion, ni sgrifennodd ond ychydig iawn yr y mesurau caeth. Cyfieithodd rai o gywyddau Dafydd ap Gwilym, ac emynau Ann Griffiths, ac o gerddi Ceiriog yn Saesneg. Bu'n pregethu'n gynorthwyol gyda'r Wesleaid am 47 mlynedd. Priododd â Margaret, unig ferch Hugh Hughes, Tynewydd, Trefriw, a bu iddynt chwech o blant. Bu farw 14 Hydref 1887, a chladdwyd ym mynwent Llanbeblig. Cyhoeddwyd detholiad o'i bregethau yn y gyfrol o'i waith a olygwyd gan John Lloyd Pierce.*

Yn y rhan sy'n cynnwys bywgraffiad byr ohono yn y llyfr *Gweithiau Ioan Mai,* mae Dr Jenkin Lloyd (meddyg ym Methesda a mab-yng-nghyfraith i Ioan Mai) wedi ysgrifennu: "Yr oedd ei fasnachdy yn gyfoethog o lenyddiaeth ein cyndadau. Meddai hefyd lyfrgell ardderchog ei hun, a chafodd un arall werthfawr gan ei ewythr, y Parchg J. Williams, Llanrug."

Ganwyd y Parchg John Williams ym 1799, y cyntaf o blant William a Margaret Williams i gael eu geni yn y Tŷ Capel wedi iddyn nhw symud yno o Twll Clawdd. Un o Edern oedd Ellen ei wraig, ond nid yw'n ymddangos fod plant o'r briodas. Roedd John Williams yn bregethwr ac yn rhedeg busnes groser yn y "Chapel Shop", Llanrug, yn ôl cyfrifiad 1851.

Ym 1861, roedd Mary Evans, 24 oed, o Landwrog, yn forwyn yn y cartref. Roedd Mary yn ferch i Hugh Evans a Hannah, merch William a Margaret Williams. Soniais eisoes yn yr *Eco* am David Evans, mab Hugh a Hannah Evans, oedd yn brifathro yn Llanystumdwy ac wedi cael cryn ddylanwad ar Lloyd George.

Bu 1844 yn flwyddyn galed iawn i Hannah. Bu iddi golli ei mab Evan, 19 oed, ym mis Chwefror, ei gŵr, Hugh, 44 oed, dri mis yn ddiweddarach, a'i mab William, 18 oed, pan fu iddo foddi yn Bombay ym mis Awst.

Wedi i John Williams farw ym 1869, fe arosodd Mary yno i gynorthwyo Ellen Williams, a oedd erbyn hyn yn 71 oed. Erbyn 1881, roedd Mary wedi priodi efo William Owen, chwarelwr o Lanrug, ac yn rhedeg y siop oedd erbyn hynny yn Swyddfa Post hefyd. Roedd un ferch i William Owen a Mary, sef Ellen Winnie, yn 4 oed ym 1881. Nid yw'n ymddangos fod plentyn arall.

Bu i'r teulu barhau yn y siop/post, ac fe briododd Ellen Winnie efo David Morris Prichard, mab i Richard ac Anne Prichard, oedd yn rhedeg busnes "grocer and draper" yn Eryri House, Brynrefail. Mab i David Morris Prichard ac Ellen Winnie oedd Frank DM, dyn y clywais ei enw yn aml yn y gorffennol ond heb wybod fawr amdano ar wahân i'r ffaith ei fod yn rhedeg bysus.

Mab arall i William a Margaret Williams oedd David Williams, a fedyddiwyd ar 8 Tachwedd 1807, yn Llanrug. Ef oedd y trydydd David iddynt: y ddau arall wedi marw'n ifanc iawn. Fe briododd David efo Catherine Edwards o Landwrog ym 1833, a bu'r teulu'n byw yn Tŷ Ddewi, Dinorwig. Fe gafon nhw o leiaf wyth o blant. Chwarelwr oedd David ar y cychwyn, ond erbyn priodas ei ferch, Margaret, ym 1855 roedd yn "quarry agent". Mae'n amlwg fod dawn geiriau gan David oherwydd ei fod yn awdur ysgrif dwy dudalen yn *Y Drysorfa*, 1838, tud 129, ar *William Evans a'i gyfraniad i Fethodistiaeth Dinorwig*.

Roedd David Williams yn flaenllaw yn sefydlu llyfrgell i'r chwarelwyr yn ardal Dinorwig – yr erthygl isod o'r C'von & Denbigh, 27 Ionawr 1847.

Fe briododd Margaret, merch David a Catherine Williams, efo Henry Hughes, mab John a Gaynor Hughes, Fron Heulog, Dinorwig. Mae John Hughes wedi ei gofnodi yng nghyfrifiad 1841 fel "merchant", yn 1851 ac 1861 fel chwarelwr ac yn 1871 fel "farmer of 7 acres and quarry agent".

Fe gafodd Henry Hughes a Margaret o leiaf naw o blant rhwng 1856 a 1877, ac fe briododd eu mab David (a anwyd tua 1863) efo merch o'r enw Anne, oedd yn enedigol o Lanberis. Fe gafodd David ac Anne bump o blant – Henry David oedd yr unig fab, wedi ei eni ym 1886.

Gweinidog Presbyteraidd oedd Henry David Hughes, ac fe briododd wraig weddw ifanc, Emily Davies, ym 1915. Bu dau fab o'r briodas sef, Cledwyn ( a anwyd ym 1916) a David (a anwyd ym 1922). Roedd William a Margaret Williams, Tŷ Capel, felly yn hen, hen, hen daid a nain i Cledwyn Hughes, yr Aelod Seneddol.

Gŵr cyntaf Emily oedd John Davies, (1881–1908), Siop Eryri, Llanrug, ac roedd ei dad, David Davies, yn cadw siop Ironmonger yn Tegfryn, Llanrug.

Merch tafarn Penybont oedd Emily, wedi ei geni yn Lerpwl ym 1883, yn ferch i William ac Elizabeth Hughes. Un o Loegr oedd Elizabeth, ond un o Lanrug oedd William Hughes, ac wedi dychwelyd i Lanrug erbyn 1891 i redeg y Rhythallt Inn. Roedd ei hynafiaid wedi byw yn ardal Penybont ers o leiaf 1798, yn ôl cofrestrau bedydd Llanrug.

**Robert Williams, Waunfawr**

O.N. Ysgrifennodd Henry Hughes, tad yr Aelod Seneddol, yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos, lyfr *Y Chwarel a'i Phobl.* Gweler hefyd *Y Gŵr o Wyneb y Graig* a *Pregethwrs Môn*.

**Daw Awst o hyd a’i dostur,**
**A min Medi’n gwanio’r mur.**

Daeth yr ‘hen alwad’ i’r fro eto yr Awst hwn i gipio Idwal Morris, Perthi, Bethel. Bu farw ar Sadwrn olaf y Genedlaethol ble bu ei fab Carwyn John yn arwain yr Adran Llefaru. Un o fechgyn bro Beddgelert oedd Idwal. Yn ddiamheuol un o hogiau’r ‘pridd’ a’i galon a’i feddwl mewn sgwrs a bwriad am faterion ‘cefn gwlad’. Un parod ei sgwrs ac ymwybodol o’i wreiddiau. Cydymdeimlwn â Lynwen, Llinos Angharad a’i theulu, a Carwyn John yn eu colled ddisymwth.

Yn dawel gartref, ddechrau Medi bu farw Maud Williams, Deulyn, yn 90 oed. Un o ferched Deiniolen oedd Maud, ond bu hi a’i hannwyl ŵr Huw yn trigo yma ym Methel am sawl blwyddyn. Yr oedd am gyfnod yn cadw’r Post yn y pentref. Bu Maud a Huw yn aelodou selog yng Nghapel y Cysegr am sawl blwyddyn, ac yn aelodau o sawl cymdeithas. Cyflawnwr y gymwynas dawel oedd Maud. Bu Menna a John mor gefnogol i’w mam dros y blynyddoedd. Roedd Maud yn meddwl y byd o’r wyrion Dylan a William ac ymfalchïai yn eu llwyddiant gyrfaol. Cydymdeimlwn â’r teulu agos yma o golli mam a nain ofalgar ac egwyddorol.

**Er cof am Maud**

O’i gardd hardd, fe’i galwyd hi
Maud, y diwreiddiodd Medi;
ble o’r blaen bu graen, daw’r gro
a gwae blodyn yn gwywo.
Ble bu gwres a llês, ei llwch –
Deulyn a’i oer dawelwch.
I ardd a chartref nefol,
un yw hi a Huw yn ôl.

**Richard Lloyd Jones**

**Clwb Bowlio Dan Do**

Mae’n fwriad gan y clwb i gynnal sesiynau blasu i ddarpar aelodau newydd o ardal Bethel a’r cylch.

Bydd y sesiynau ar agor i oedrannau 14 oed a throsodd. Cynhelir y sesiynau ar nosweithiau Gwener yn y Neuadd Goffa rhwng 7.00 – 9.00 pm. Os oes gennych ddiddordeb yna cysylltwch ag Idris Rees, Stâd y Rhôs. (01248 670018)

**Tynfa Neuadd Goffa Bethel**

Dyma y rhestr o’r enillwyr dros y misoedd diweddar.
Ebrill: Sioned Worseley (57), Nia Griffith (20), Glenda Hughes (60)
Mai: June Owen (66), Delyth Williams (72), Iola Jones (46)
Mehefin: Dafydd Williams (55), Angharad/Berwyn (37), Iola Jones (46)
Gorffennaf: Gwenda Farrar (18), Gareth Hughes (79), Sulwen Thomas (62)
Awst: Bill Vize (102), Morfydd Thomas (42), Glenda Hughes (60)
Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â’r dynfa gellir cysylltu â Sion Williams, 15 Y Ddôl.

**Clwb Bro Bethel**

Oherwydd y gwaith atgyweirio ar Gapel Cysegr, bu rhaid gohirio cyfarfod cyntaf o’r clwb. Byddwn yn ail gychwyn tymor y clwb ar bnawn Mawrth, 1af Hydref yn y Festri am 1.30 pm. Bydd croeso cynnes yn aros aelodau presennol a newydd.

**Eisteddfod Bethel**

Mae’r testunnau a’r dyddiadau cau bellach yn gyhoeddus, ac mae’r paratoi ac ymarferion wedi dechrau. Edrychwn ymlaen at Eisteddfod lewyrchus arall eleni. Fel pob blwyddyn buasai’r pwyllgor yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniad ariannol at yr Eisteddfod, ac o’u derbyn mewn da bryd, yna caiff y rhodd ei gydnabod ar raglen y dydd.

**Diolch**

Dymuna Lynwen, Llinos a Carwyn a gweddill y teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth o golli Idwal Morris, Perthi, Bethel.

Hoffai Richard Lloyd Jones ddiolch i bentrefwyr ac ardalwyr Bethel sydd wedi ei gefnogi drwy brynu ei lyfr â gyhoeddwyd yn ddiweddar. Os oes unrhyw un o fro’r *Eco* eisiau prynu copi yna cysylltwch ac fe allwch dderbyn copi wedi ei arwyddo, ar eich stepen drws.

**Dymuno’r Gorau**

Erbyn hyn bydd y symudiad addysgiadol o gynradd i uwchradd, ac o uwchradd i wahanol golegau neu waith wedi cymryd lle. Dymunwn y gorau iddynt.

**Oedfaon Hydref**

**Bethel**: 6/10: Parch. Gwyndaf Jones, 20/10: Parch. Gerallt Evans, 27/10: Parch. Ioan Gruffydd.
**Cysegr**: 6/10: Richard Parry Jones, 13/10: Gweinidog (Gwasanaeth yr Ofalaeth. Cymun), 20/10: Diolchgarwch

**Addasu**

Bu sawl teulu yn falch o griw gweithgar y Caffi Cymunedol yn ystod gwyliau ysgol yr haf. Roedd yr addasiad o fwydlen ar gyfer y plant yn fendithiol iawn. Hefyd y nifer o ddiwrnodau thema a drefnwyd gyda gweithgareddau perthnasol. Hefyd, diolch i’r caffi am arddangos gwisgoedd ysgol cynradd ac uwchradd oedd wedi eu cyflwyno gan rieni i’w cyfrannu at ddisgyblion oedd yn trosglwyddo dosbarth neu ysgol.

**Dechrau**

Byddwch wedi sylwi fod y gwaith wedi dechrau, fydd yn arwain at stâd newydd o dai yma ym Methel. Yr arwyddion cyntaf oedd dymchwel y ‘mur’ gerrig a ‘diwreiddio’ y gwrych. Gobeithio na fydd y ddau air yma yn eiriau mwys ymhen blynyddoedd.

**Ail Ddechrau**

Dyma dymor arall yn hanes *Eco’r Wyddfa* ar gychwyn. Diolchaf i’r llawer sy’n cynnal gweithgareddau amrywiol yn y gymuned. Teg i griw’r dyfodol yw ein bod yn cadw cofnodion o linell hanes ein hardal. Fel o’r blaen danfonwch eich storiau, atgofion, hysbysebion… mewn da bryd. Mae’r modd cysylltu, dyddiad cau derbyn cyfraniadau a dyddiadau cyhoeddi i’w gweled ym mhob rhifyn. Cofiwch fod lluniau hefyd yn atodiad bwysig i’n ‘stori’. A beth am gyflwyno’r *Eco* i gymdogion. Edrychwn ymlaen i dymor arall, amrywiol.

**Eisteddfod Genedlaethol**

Gymaint oedd yr amheuon am leoliad, trafnidiaeth, diffyg parcio, codi arian ayyb roedd cwmwl yn hofran dros gymoedd Rhondda, Cynon a Thaf. Trodd Parc Ynysangharad yn faes delfrydol a chroeso y cymoedd yn ail danio ysbryd y Gymraeg yn yr ardal. Roedd y torfeydd sylweddol hefyd yn plesio. Unwaith eto cawsom ein syfrdanu gan y safonau uchel ym mhob agwedd o’r eisteddfod. Gall Penisarwaun ymfalchio yng nghamp Eurgain Haf yn cipio’r Fedal Ryddiaith, â chryn ganmoliaeth.

Rwy’n siŵr fod cryn falchder – ac ambell ddeigryn – draw yng nghartref Margaret Eckley, Gerddi, yma ym Methel o weld ei ŵyr, Carwyn, yn codi ar alwad y corn gwlad i dderbyn y Gadair Genedlaethol am ei awdl hynod o bersonol ar y testun ‘Cadwyn’. Bu cryn drafod a chanmoliaeth i’w awdl.

Roedd un ‘hen-law’ o stiward y Pafiliwn yn dweud wrthyf fod y niferoedd â fynychodd y Pafiliwn tu allan i’r prif seremoniau yn uwch na sawl eisteddfod diweddar. Un o’r rhesymau yn ei farn oedd y nifer o gorau safonol a fentrodd i’r llwyfan. I lawer, yr uchafbwynt oedd yr 14 o ‘gorau newydd’ a sefydlwyd ar gyfer y gystadleuaeth bnawn Sul. O flaen pafiliwn llawn cafwyd gwledd o ganu. Tybed a oes rhywun o fro’r *Eco* wedi meddwl am sefydlu côr cymysg ar gyfer cystadleuaeth gyffelyb yn y dyfodol. Buasai yn gaffaeliad cymdeithasol broffidiol mae’n siŵr. Beth amdani?


FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
www.fframia.com
FFRAMIO LLUNIAU



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS



Deilwen Hughes, Leisa Lloyd Edwards, Alis Glyn Tomos a Sian Gibson

**Merched y Wawr**
Croesawodd y Llywydd Liz Watkin yr aelodau yn ôl ers saib yr haf. Diolchodd i'r pwyllgor am eu cymorth i lunio rhaglen a fydd gobeithio at ddant pawb. Diolchodd i Anne Elis, Mair Read a Mair Williams am gynorthwyo efo'r gwaith cofrestru yn absenoldeb Gwyneth Jones y Trysorydd a Gwenan Roberts yr Ysgrifennydd.

Yn ystod mis Awst daeth y newyddion trist am farwolaeth Idwal gŵr Lynwen, estynwn ein cydymdeimlad dwysaf i Lynwen, Llinos a Carwyn. Rydym yn falch o weld Lynwen wedi dod nôl atom heno.

Llongyfarchiadau i Gwyneth Jones ar ddathlu penblwydd arbennig ac hefyd i Alys sy'n dathlu yr un penblwydd wythnos nesaf.

Llongyfarchiadau i Manon Elwyn merch Deilwen ac Ifan ar eu dyweddiad, llongyfarchiadau hefyd i Iolo mab Ellen a'i wraig Catrin ar enedigaeth eu mab Guto Ifan.

Bu Begw wyres Eryl yn brysur yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod yn ail yng nghystadleuaeth y monolog a chymryd rhan mewn amryw o gystadlaethau efo Ysgol Glanaethwy. Gweithio yn yr eisteddfod fu hanes rhai o bobl ifanc y pentref - Carwyn mab Lynwen yn beirniadu llefaru a Huw Llywelyn yn cymryd rhan gyda thenoriaid mewn cyngerdd yn yr eisteddfod i ddathlu cyfraniad Stuart Burrows. Roedd Ffion merch Eirlys yn beirniadu cystadleuaeth Mewn Cymeriad. Cystadleuaeth i bobl ifainc rhwng 16 a 25 oed yn cyflwyno perfformiad hyd at 5 munud wedi ei selio ar ddewis o sgriptiau Mewn Cymeriad

Diolchodd Liz i Jen am dynnu'r lluniau a'u rhoi ar y gwefannau cymdeithasol yn fisol. Yn y rhifyn gyfredol o'r Wawr mae erthygl yn sôn am sefydlu'r cwmni Delwedd, a hefyd hanes Jen a'r gwaith mae'n wneud efo'r elusen MND. Braf ei gweld yn cael cydnabyddiaeth am ei gwaith. Cafodd Mary Evans groeso twymgalon yn ôl wedi ei gwaeledd yn ddiweddar.

Oherwydd fod y banciau wedi newid y canllawiau ar gyfrifon cymdeithasau ac elusennau rhaid meddwl am ffyrdd i gael mwy o arian i'r gangen. Rydym am wneud y dyddiadur fel arfer, cael mwy i ymaelodi ar banel cyfryngau Cymru a bwriedir cael bwrdd gwerthu llyfrau Cymraeg ail law yn ystod ein nosweithiau, gyda'r arian yn mynd i'r gangen.

Mae'r gangen yn dathlu 50 mlynedd y flwyddyn nesaf, cawn drafod sut i ddathlu mis nesaf. Mae Rhian wedi gweu pwmpenni ar gyfer noson calan gaeaf a bydd yr arian yn mynd tuag at ymchwil Cancr y Fron. Bydd rhai ar gael yng nghaffi'r Bedol.

Ein adloniant ar y noson oedd Sian Gibson yn cyflwyno dwy o'i disgyblion o Ysgol Gerdd William Mathias, sef Leisa Lloyd Edwards ac Alis Glyn Tomos. Mae'r ddwy'n dalentog iawn ac wedi ennill ar y ddeuawd yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae Leisa a'i bryd ar astudio canu clasurol yng Nghaerdydd ac Alis am fynd i Gaerdydd hefyd i astudio cyfansoddi. Roedd Sian a Deilwen yn cyfeilio iddynt. Cafwyd perfformiadau gwych gan y ddwy, a diolchodd Deilwen iddynt ar ran y gangen.

Enillwyd y raffl gan Delyth ac Ann Lewis. Diolchodd Liz i'r pwyllgor am baratoi'r baned a'r cacennau.

## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 6ed o Hydref, bydd Gwasanaeth, dan arweiniad Mr Robert Morris, am 2.00pm. Ar y 13eg o Hydref, bydd Oedfa'r Ofalaeth yn cael ei chynnal yng Nghapel y Cysegr, Bethel, dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, i gychwyn am 10.00am. Ar yr 20fed o Hydref, bydd Oedfa'r Diolchgarwch yn cael ei chynnal dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, i gychwyn am 2.00pm.

**Cydymdeimlo**
Cafodd y gymuned eu brawychu fis Awst o glywed am ddwy farwolaeth gynamserol dau o'n trigolion.

Roedd Michael John Jones (1 Bryn Y Gof, neu 'Mike Gwyddal' fel 'roedd llawer yn ei adnabod) wedi ymgartrefu yn y pentref ers blynyddoedd maith ac yn wyneb cyfarwydd i lawer un ohonom. Roedd yn gymeriad annwyl a pharod iawn ei gymwynas. Anfonwn ein cydymdeimladau dwysaf at Mair, Guto a'u teulu estynedig yn dilyn eu profedigaeth ddwys o golli gŵr, tad a thaid arbennig iawn.

Er mai dim ond am gyfnod byr fu Steven Jones (1 Erw Wen) yn byw yn y pentref, roedd yntau wedi dod yn rhan o'r gymuned ac wedi sefydlu ei hun fel cymydog annwyl a chyfeillgar. Anfonwn ein cydymdeimladau dwysaf at Lena, Abbie a Samia yn dilyn marwolaeth gŵr, tad a thaid arbennig arall.

**Dymuniadau gorau**
Pob hwyl i holl blant a phobl ifanc y pentref a'r cyffiniau sydd ar gychwyn pennod newydd yn eu bywydau – rhai yn cychwyn cyfnod ysgol, eraill yn cychwyn addysg Uwchradd, a rhai yn dechrau cyrsiau Prifysgol.
Mwynhewch bob eiliad!




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

ECO'r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# LLANBERIS

**Clwb y Mamau**
Sawl blwyddyn yn ôl fe sefydlwyd Clwb y Mamau, Llanberis gan yr Ymwelydd Iechyd yn y Clinig. Ar un adeg roedd nifer o aelodau yn y clwb ac roedd yn gyfle i famau ifanc gael dod at ei gilydd i gymdeithasu dros baned. Dros y blynyddoedd cafwyd sawl sgwrs gan siaradwyr gwadd ac roedd yna gryn edrych ymlaen bob blwyddyn am y parti Nadolig a'r trip diwedd tymor.

Yn anffodus aeth y nifer o aelodau yn fychan iawn ac felly fe benderfynwyd i ddod a'r clwb i ben. Gan fod y clwb wedi dechrau yn y clinig a chan fod ychydig o arian ar ôl yn y coffrau fe benderfynwyd i'w roi tuag at y clinig presennol. Yn ddiweddar fe roddwyd siec o £275 i'r Feddygfa tuag at brynu offer a fydd o fudd i fabanod a phlant sy'n mynychu'r clinig.

Dilys M Roberts (Trysorydd) ar ran yr aelodau.

**Clybiau crefft**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00pm tan 7.30pm Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnio** - yn y Ganolfan ar brynhawn Dydd Iau, 2.00 - 4.00 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul trwy'r haf hyd at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Bydd y grŵp yn cychwyn am 10.00am o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00pm. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar *Facebook*.

**Clwb 100**
Enillwyr Clwb 100 dros yr haf oedd:
*Gorffennaf*
1. Glenys Jones; 2. Ellen Hughes
3. Arwyn Roberts

*Awst*
1. Gwyneth Parry; 2. Dennis Carr
3. Myra Moorse

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau Diolchgarwch a mis Hydref:
29ain Medi 29: 11.00am - Cymun Bendigaid Diolchgarwch.
Gwerthfawrogir unrhyw rodd o nwyddau tuag at Fanc Bwyd Arfon, fel tuniau, bwydydd sych neu gynnyrch ymolchi. Bydd yr Eglwys ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10.30am a 4.00pm i dderbyn y nwyddau.
6ed Hydref: 11.00am - Boreol Weddi
13eg Hydref: 11.00am - Cymun Bendigaid
20fed Hydref: 11.00am - Boreol Weddi
27ain Hydref: 11.00am - Cymun Bendigaid

Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10.30am a 2.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Capel Coch**
**Hen Stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hafnon i gefnogi gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gellir rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gelli'r rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y cyntedd, unrhyw Sul.

**Oedfaon Hydref**
6ed Hydref: 2.00pm - Parch Gwenda Richards
13eg Hydref: amser i'w gadarnhau - Parch John Pritchard
20fed Hydref: 2.00pm - Parch Anna Jane Evans
27ain Hydref: 2.00pm - Parch Ddr Elwyn Richards
3ydd Tachwedd: 10.00am - Mr Robert Morris

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn / ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr *Eco*. Diolch yn fawr.




**Cyfle i Geisio am Grant**
Dyma gyfle gwych i drigolion Llanberis a Nant Peris ymgeisio am grantiau bychain gan Gyngor Cymuned Llanberis a Nant Peris. Fe welwch yr wybodaeth ar y poster neu cewch fwy o fanylion a ffurflenni cais gan y Cynghorwyr Trystan Thomas neu Heather Jones.






Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch ysbrydoli
Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein
Palas PRINT
10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

## NANT PERIS



Yn nechrau Medi ffarweliwyd ag Alan a Helen Wilcox, Ty'n Ffynnon. Mae'r ddau a fu yma yn byw yn y Nant ers deunaw mlynedd wedi mynd draw i fyw i ddwyrain Sir Efrog, er mwyn bod yn nes at borthladd Hull ac at y teulu sy'n byw ar y cyfandir.

Cyn ymddeol roedd Helen yn Athro yn Ysgol y Celfyddydau, Diwylliant ac Iaith ym Mhrifysgol Bangor gan arbenigo mewn llenyddiaeth Saesneg ac roedd hi ac Alan yn weithgar yn lleol yn enwedig mewn perthynas ag Eglwys Peris Sant. Yn ystod ei gyfnod yma llwyddodd Alan i hyfforddi ar gyfer yr offeiriadaeth a chael ei ordeinio. Yn dilyn hynny daeth i gymryd gofal o eglwysi Bro Eryri, ac fe ddysgodd Gymraeg yn ddigon da i wasanaethu yn iaith y nefoedd.

Daeth nifer sylweddol o bentrefwyr ynghyd, ac amryw o offeiriaid Esgobaeth Bangor, i ddangos gwerthfawrogiad o gyfraniad y ddau i'r Eglwys yng Nghymru a'r Esgobaeth. Yn eu plith yr Esgob (ac Archesgob Cymru) Andy John a'i wraig y Canon Naomi Starkey sy'n olynu Alan â chyfrifoldeb llawn am eglwysi'r fro. Fe welwch Alan a Helen yn y llun gyda'r Archesgob. Yno hefyd oedd cyn offeiriad y plwy Yr Hybarch Robert Townsend, Archddiacon Meirionnydd erbyn hyn a'r Hybarch David Morris, Archddiacon Bangor. Eraill oedd rhai o gyn gyd-weithwyr a chyfeillion Helen yn y Brifysgol.

Trefnwyd yr achlysur ffarwel gan Peter Jones a oedd wedi profi yn bersonol garedigrwydd a chefnogaeth y ddau ac fe ddywedodd Dei Tomos air o ddiolch ar ran y pentrefwyr. Dywedodd fod pawb yn gwerthfawrogi cyfraniad Helen ac Alan ac yn ddiolchgar am eu parch i'r iaith a'u cefnogaeth i fywyd cymdeithasol y pentref. Gresyn, meddai, nad oedd mwy o'r rhai a ddaw i fyw yn ein plith yn dilyn eu hesiampl. Dymunodd yn dda iddynt wrth ymadael a'r Nant i fyw yn Beverley a diolchodd i Lee a Pauline sy'n cadw Ty'n Llan am ei haelioni yn rhoi'r bwyd fel cyfraniad i'r noson.

**Eglwys St Peris**
Gwasanaethau mis Hydref
6ed Hydref 6: 9.30am - Boreol Weddi, 6.00pm - Gwasanaeth Diolchgarwch
13eg Hydref: 9.30am - Cymun Bendigaid
20fed Hydref: 9.30am - Boreol Weddi
27ain Hydref: 9.30yb - Cymun Bendigaid
Hefyd, cynhelir Boreol Weddi bob bore Mawrth am 9:30.










## Gwirfoddoli gyda'r Urdd

Ydych chi'n awyddus i wneud gwahaniaeth yn eich cymuned a chyfrannu at ddatblygiad chwaraeon plant a phobl ifanc? Mae gwirfoddoli gyda'r Urdd yn gyfle unigryw i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog, cefnogi gweithgareddau ieuenctid, ac ennill profiadau gwerthfawr. Dewch yn rhan o deulu'r Urdd a helpwch i greu atgofion oes i genedlaethau'r dyfodol!
Os oes gennych ddiddordeb gallwch gysylltu â **gwirfoddoli@urdd.org**

# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur - Rhan 29

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros dair blynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Mae cathod yn dangos diddordeb mewn bywyd gwyllt, ac os ydynt yn cael mynd allan o'r tŷ mi fyddan nhw'n reddfol yn ceisio dal llygod, adar ac ysglyfaeth bach arall. Dydy'r ysfa i hela ddim yn cael ei ysgogi oherwydd eu bod nhw isio bwyd, ond mae'n reddfol iddynt i hela a dal pethau*. Weithiau maent yn hela er hwyl neu i wneud argraff neu addysgu eu deu-droediaid. *Ydach chi wedi darganfod ryw fath o aderyn yn gelain ar stepan y drws? Os oes gynnoch chi gath, boed honno neu hwnnw'n goch neu'n unrhyw liw neu gyfuniad o liwiau eraill, mae'n debygol iawn i chi dderbyn anrheg fach annisgwyl rywdro. Gawson ni anrheg o 'parakeet' gwyrdd un bore ar riniog y drws. Rhaid i mi gyfaddef na wnes i ddim holi os oedd rhywun wedi colli un cyffelyb, jest ei lapio mewn papur newydd a'i guddio yn nyfnderoedd y bin sbwriel!*

Mae Bob wedi mwynhau'r haf. Dydy o ddim wir wedi mwynhau'r gwynt na'r glaw ond jest weithiau, gan fod ei ddeu-droediad adra'n amlach nag arfer, mae o wedi mwynhau cael bod allan a chrwydro'r ardd, tra maen nhw yn gwneud gwahanol bethau'n yr ardd. Mae o'n hoffi cwmni, dydy o ddim gwir angen bod ar lin nac wrth sodlau'r deu-droediaid, ond mae'n hoffi bod allan a gwylio beth sydd yn mynd ymlaen. A dyma fo felly yn parhau efo'i stori …

"Fel arfer dwi'n mwynhau'r haf. Torheulo ar y llechi, sydd wedi cynhesu yng ngwres yr haul. Gorwedd o dan y lein ddillad yn gwylio'r cysgodion ac os nad ydy'n rhy boeth, rhedeg ar eu holau. Ond fydda i byth yn llwyddo i'w dal nhw. Mae yna lwyth o bethau bach pluog o gwmpas y lle. Maen nhw, y deu-droediaid, yn hel y rhai du a du a gwyn mawr o'r ardd, ond i'w gweld yn dotio ar y rhai lleiaf. Cathod a ŵyr pam.

Dwi'n brysur, fel arfer, yn hela'r pethau bach, bach pedair-troed sy'n meddwl nad ydw i yn gallu eu gweld nhw, yng nghanol y planhigion ac yn y waliau cerrig. Gwirion ta be? Dwi'n gallu clywed eu hoglau nhw ac yn clywed eu traed bach anghynnes yn rhedeg o gwmpas. Dydw i ddim isio brolio, ond mi ydw i wedi llwyddo i ddal ambell un yn ddiweddar, ac maen nhw, y deu-droediaid yn fy nghanmol i'r cymylau am hynny. O ddydd i ddydd mi fyddai'n anwybyddu'r pethau bach pluog. Am ryw reswm maen nhw, fel tasa'n nhw'n gwybod mod i o gwmpas. Sut tybed? Dwi'n sleifio o gwmpas y lle, yn trio cuddio yn y planhigion a chuddio ym môn y clawdd. Ond pan dwi'n meddwl fod gen i obaith am ddal un ohonyn nhw, a chael byrbryd bach blasus, maen nhw wedi fflio i ffwrdd ymhell cyn i mi eu cyrraedd. Mi faswn i'n taeru eu bod nhw'n chwerthin am fy mhen i ar adegau.

Ond dylai pob cath, boed hwnnw'n sunsur a thrwm ai peidio, fod a Chynllun B. A wyddoch chi be ddarllenwyr annwyl yr Eco? Mae gen i gynllun B!

Mi ydw i wedi sylwi, gan nad ydw i'n wirion, fod y deu-droediaid yn rhoi bwyd i'r pethau bach pluog mewn dalwyr sydd yn reit uchel i fyny. Rhy uchel i mi fedru eu cyrraedd. Ond mae yna un aderyn mawr (gwylan maen nhw'n ei alw fo) yn dod i gael bwyd bob dydd, achos mae hi'n teimlo bechod



drosto fo… Fydda i byth yn deall y deu-droediaid yma. Mae o'n cael bwyd ar ben y wal, ond dydy o ddim yn bwyta bob tamaid o fwyd mae hi'n ei roi iddo fo. Beth ydw i wedi sylwi ydy bod yna adar bach pluog yn dod ar y wal a'r prysgwydd gerllaw i wledda ar y briwsion.



Maen nhw yn glanio ar wal uchel, (uchel o ran cath goch). Ond dwi wedi ffeindio mod i'n gallu, gydag ymdrech, yn gallu neidio ar ben y wal. Rwan os wnâi i aros yno yn ddigon llonydd, wnawn nhw ddim fy ngweld i.

Mmmm… Ocê, ella nad hynny oedd fy syniad gorau erioed. Dydw i ddim wedi llwyddo i wledda ar yr un ohonyn nhw, eto. Ond ar y llaw arall, mi ydw i wedi cael dipyn o ymarfer corff. Felly wnai ddal i drio ac anwybyddu'r sylwadau sarhaus maen nhw'r deu-droediaid yn eu taflu ataf pan dwi'n hela.

Teimlo'n oer rŵan, felly nôl i'r tŷ a gweld os allai berswadio hyhi i gynna'r tân.

Mmmm braf. Dwi'n hapus iawn yn byw yma, yn enwedig pan mae hi'n cynna tan.

Amser a ddengys…"




Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk

ADVANCED AVW VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# WAUNFAWR

**Cydymdeimlo**
Yn ystod mis Awst, bu fawr Steven Jones, Tŷ'n Cae. Roedd Steve yn ŵr i Carys, tad i Llŷr a Siân, a thaid i Ana ac Enlli. Un o Nebo oedd Steven yn wreiddiol, ac wedi ymddeol o'i waith ym Manweb, roedd yn mwynhau ffermio. Yn aml iawn byddai'n gyrru tractor drwy'r pentref, ac yn barod iawn ei wên bob amser. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad diffuant iawn at y teulu i gyd.

**Brysiwch wella**
Rydym yn dymuno'r gorau am adferiad buan i bawb sydd ddim wedi bod yn dda neu wedi cael triniaeth yn ddiweddar, gan gynnwys Dewi Jones, Dôl y Coed a Raymond Parry, Ffridd Felan, y ddau yn Ysbyty Eryri; Alffie a Heulwen, Hafod Rhug Isaf, a Jeff Daniels sydd wedi dychwelyd adref o'r Ysbyty. Cofion cynnes atoch i gyd.

**Dymuniadau gorau**
Pob lwc i bobl ifanc y pentref sy'n symud i ysgol newydd neu goleg, neu sy'n cychwyn gweithio; a da iawn chi i gyd ar bob llwyddiant gawsoch yn yr arholiadau.

**Pen-blwydd arbennig**
Mae'r dymuniadau pen-blwydd yma yn rhai go anarferol – oherwydd mai stad o dai, sef Tref Eilian, oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed ar 1af o Fedi eleni.

Diolch yn fawr i Rose Ann Hughes am dynnu fy sylw at yr achlysur ac am rannu ei hatgofion.

Pan symudwyd i mewn i'r tai ym 1974, roeddynt yn cael eu hystyried yn fodern iawn gyda cheginau mawr agored gydag unedau wedi eu ffitio ynddynt a gwres canolog oedd yn cael ei redeg gan dân glo. Gan nad oedd y tai yn barod ym mis Mehefin fel y bwriadwyd, symudodd y teuluoedd i mewn cyn i'r tarmac gael ei roi lawr ar y maes parcio. Oherwydd hynny, dim ond £5 yr wythnos oedd y rhent. Unwaith cafodd y tarmac ei roi lawr, codwyd y rhent i £6 yr wythnos!

O'r holl fynd a dŵad dros yr hanner can mlynedd diwethaf, dim ond dau deulu sydd wedi parhau i fyw yn yr un tai o'r cychwyn, sef



**Rasio Beics yn Llanidloes**
Mi deithiodd teulu bach Min y Grug yn o bell i gystadlu yn ras beiciau 'Revvi' yn ddiweddar, a lwcus iawn eu bod wedi gwneud hynny gan fod Erin Bryn Pritchard wedi dod yn gyntaf yn y categori genod a Twm Wyn Pritchard, ei brawd bach, hefyd wedi cael medal am gwblhau'r trac. Rasus ydi rhain sy'n cael eu trefnu gan gwmni 'Welsh Open Youth Hare and Hound' ac mae'r plantos yn edrych yn broffesiynol iawn yn eu siwtiau arbennig. Da iawn chi!

Rose Ann ac Eifion Hughes yn rhif 15 a Dafydd a Llywela Davies yn rhif 20.

Un o'r newidiadau mwyaf yw bod gan bawb ffôn erbyn hyn – ar y cychwyn, dim ond ambell i dŷ ar y stâd oedd â ffôn. Un o'r rheiny oedd Mwynwen a Gwyrfai Jones, rhif 19. Fyddai o ddim yn beth diarth i bobl ffonio Mwynwen a Gwyrfai a gofyn iddynt nôl rhywun o un o'r tai eraill i ddod at y ffôn, syniad cwbl ddieithr i'r genhedlaeth ifanc!

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Helen Mai a Gwil Prydderch ar enedigaeth eu merch fach, Beti Rwth Prydderch ym mis Gorffennaf. Mae nain, sef Marian Jones, Tai Eilian wedi gwirioni wrth gwrs!

Llongyfarchiadau hefyd i Glenys Jones, Stad Tŷ Hen ar ddod yn hen nain am y tro cynta, i Maja, sy'n byw yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau hefyd i Rob ac Alma Jones, Tan y Fron ar ddod yn hen daid a nain am yr eildro, i Gwawr Elin, sy'n byw yn yr Wyddgrug. Pob hwyl i bawb ar y magu.

**Croeso i Waunfawr!**
Braf yw croesawu teulu newydd i'r pentref unwaith eto'r mis hwn, sef Tom a Rhiannon sydd wedi ymgartrefu yn 13 Stad Tŷ Hen. Daw Tom o Lanrug a Rhiannon o Sir Fôn. Gobeithio byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

**Symud tŷ**
Mae dipyn o symud dodrefn wedi bod yn Waunfawr yn ystod yr haf! Mae Terry a Lorna Parry wedi symud i fyw i Eilio Fawr; mae Gareth, Rhian, Aled, Gethin ac Elis wedi symud i Rhos Melyn; a Tomos, Ela, Elis a Beca wedi symud i Rhos Celyn. Gobeithio bod y postmon yn gallu dod o hyd i chi i gyd a'ch bod yn setlo yn eich cartrefi newydd.

**Priodasau**
Yn ystod yr haf, priododd Arwel Clarke, Pant y Waun gyda Hannah o Chwilog. Hefyd priodod Gwenllian, Tegannedd gyda Ciaran Mitchell o Lanrug. Cafwyd haul braf i'r ddwy briodas, a phawb wedi mwynhau'r dathlu. Llongyfarchiadau i chi.

**Plaid Cymru – dyddiad pwysig!**
Yn dilyn llwyddiant nosweithiau cymdeithasol yn y dafarn yn ddiweddar, mae noson arall wedi ei threfnu gydag Elidir Glyn ar Dachwedd 8fed am 7.30. Bydd tocynnau ar werth ganol mis Hydref. Dewch yn llu i fwynhau llais arbennig Elidir a chaneuon poblogaidd Bwncath.

**Bore coffi**
Bydd Ffrindiau Ysbyty Eryri yn cynnal Bore Coffi yn Theatr Seilo, Caernarfon fore Sadwrn 5ed Hydref, rhwng 10.30 a 12.00. Dim ond £2 fydd côst paned a bisgedi, a bydd stondinau yno hefyd. Dewch i gefnogi'r achos teilwng hwn.




# Ysgol Waunfawr

**Croeso nôl**
Braf oedd gweld 115 o ddysgwyr yn dychwelyd ar ddechrau Medi a 16 ohonynt yn cychwyn yn y dosbarth Meithrin am y tro cyntaf. Pob dymuniad da iddynt wrth iddynt gychwyn ar y daith gyffrous yn Ysgol Waunfawr.

**Aelodau newydd o staff**
Yr ydym yn croesawu tri aelod newydd o staff atom y tymor yma, sef Anti Cheryl, Mr Osian a Mr Aled. Gobeithio y byddent hwythau hefyd yn hapus iawn yn yr ysgol.

**Themâu**
Mae themâu'r ysgol yn amrywio yn fawr y tymor hwn o, 'Dyma Fi, Dinosoriaid, Y Goedwig Law i straeon am Fforio ar hyd a lled y byd. Cofiwch gysylltu os oes gennych brofiad neu stori i'w rannu gyda'r plant. Maent wrth eu boddau yn croesawu ymwelwyr.

**Datblygiadau**
Byddwn hefyd yn gweithio ar ddatblygu'r ddau fuarth a'r ardaloedd y tu allan y tymor hwn, gan beintio gemau ac ati ar y buarth. Os ydych yn adnabod unrhyw un a fyddai'n gallu ein cynorthwyo neu noddi'r gwaith, rhowch wybod.

Edrychwn ymlaen at ddathliadau megis Diolchgarwch a'r Nadolig yn fuan iawn a gobeithio y bydd modd i deuluoedd ymuno yn y dathlu.

# Un funud fach ...

## GWELD COLLI

O ran ein traddodiad capel a'n diwylliant eglwysig a Christnogol Cymraeg y mae, i lawer o bobl, beth gwir yn yr hen air, 'bod rhaid colli rhywbeth cyn y gwelwn ei werth'. Tymor y Diolchgarwch fu'r adeg yma o'r flwyddyn ar hyd y blynyddoedd o fewn y traddodiad hwnnw. Mewn rhai ardaloedd, roedd yr eglwysi'n cynnal eu hoedfaon Diolchgarwch ar wahanol ddyddiau neu nosweithiau dros gyfnod o fis neu fwy, o ddiwedd Medi i ddiwedd Hydref. Ond yma ym mro'r *Eco* a'r ardaloedd chwarelyddol a rhan helaeth o Sir Gaernarfon, neilltuwyd un dydd ar gyfer yr ŵyl: y trydydd dydd Llun ym mis Hydref. Roedd yn ddiwrnod o bwys, ac rwyf finnau'n ddigon hen i gofio dydd Llun Diolchgarwch y tri chyfarfod gweddi – bore, pnawn a nos.

Erbyn i mi fynd yn weinidog i Ben Llŷn, fodd bynnag, roedd y traddodiad yn edwino ac – er nad oedd pobl yn sylweddoli hynny ar y pryd – yn agos at ei wely angau. Doeddwn i fy hun ddim yn ei werthfawrogi fel y dyl'swn o bosib. Yn gam neu gymwys, doedd gen i fawr i'w ddweud wrth arfer ambell un o ddod i'r capel ar ddydd Llun Diolchgarwch yn unig, fel petai un dydd neu un oedfa'n ddigon o ddiolch i Dduw am ei holl ddaioni o flwyddyn i flwyddyn. A waeth cyfaddef, doeddwn i ddim yn llawn werthfawrogi bwriad gwaelodol y diwrnod o ddiolch i Dduw am ei ofal rhagluniaethol a'i gynhaliaeth faterol. A minnau'n Gristion ifanc oedd newydd weld gwerth yr Efengyl a phrydferthwch gwaith achubol Iesu Grist, roedd cyfyngu ein diolch – fel yr ymddangosai i mi beth bynnag – i bethau fel bwyd a diod a dillad yn ymddangos yn dlawd ac annigonol.

Erbyn i mi ddechrau pregethu yn nyddiau coleg, roedd llawer o eglwysi'n cael trafferth i gynnal diwrnod cyfan o gyfarfodydd gweddi ac eisoes wedi dechrau cynnal oedfaon pregethu yn eu lle. Ac arwydd pendant o ddiffyg gwerthfawrogiad o bwrpas sylfaenol yr ŵyl oedd na fyddwn, wedi derbyn gwahoddiad i arwain oedfa o'r fath, yn cyfeirio at yr un o fendithion tymhorol Duw ar wahân o bosib i frawddeg neu ddwy ar ddiwedd y bregeth. Roedd yr Efengyl gymaint mwy gwerthfawr nag unrhyw beth materol.

A heddiw, ydw, dwi'n gweld colli'r ŵyl. Yn raddol, fe'i symudwyd – yn y mwyafrif o'r eglwysi – o'r dydd Llun i'r dydd Sul. Ac o fynd i'r Sul, aeth yn raddol yn llai a llai arbennig nes bron â diflannu'n llwyr. Mae ei thranc yn arwydd o'r dirywiad ysbrydol a'r cefnu ar Dduw sydd – i bob crediniwr – wedi tlodi ein cenedl dros y blynyddoedd diwethaf. Ac eto, dyw hi ddim wedi llwyr ddiflannu; a diolch, felly, am bob oedfa Ddiolchgarwch a gynhelir eleni eto.

Roedd gan yr hen ŵyl lawer i'w ddysgu i mi o ran gwerthfawrogi gofal a bendithion tymhorol Duw. Wedi'r cyfan, y Duw a roddodd ei annwyl Fab i farw trosof ar Galfaria yw'r Duw sy'n rhoi i mi hefyd fy iechyd a'm synhwyrau a'm cynhaliaeth feunyddiol. Mae'n dda, ac mae'n rheidrwydd arnom i gydnabod ei haelioni a'i ofal. Heddiw, a'r ymwybyddiaeth o Dduw yn beth mor ddieithr i'r rhelyw o bobl, bron nad wyf yn gweld eisiau'r un dydd y flwyddyn o ddiolch ac yn dyheu am glywed eto bobl yn diolch i'r Brenin Mawr am y pethau mwyaf syml a daearol a di-nod.

Ac eto, Duw yn ei ras a'm galluogo i ddal i gofio, dal i gredu a dal i gyhoeddi mai coron ei fendithion yw ei Fab Iesu Grist a'r hyn a wnaeth trosom yn ei fywyd a'i farwolaeth a'i atgyfodiad.

**JOHN PRITCHARD**

# Mentrau Iaith Cymru yn chwilio am aelodau bwrdd annibynnol

Ar gyfnod cyffrous i Fentrau Iaith Cymru rydym am recriwtio aelodau bwrdd annibynnol.

Cwta flwyddyn ers penodi Cyfarwyddwr newydd, rydym yn chwilio am unigolion sydd yn frwd dros gynyddu defnydd y Gymraeg yn eu cymunedau, er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y Mentrau Iaith yn effeithiol.

Meddai Dr Myfanwy Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Mentrau Iaith Cymru:

"Pwrpas Mentrau Iaith Cymru yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith i greu cyfleoedd i gymunedau Cymraeg ffynnu ym mhob cwr o Gymru. Rydyn ni am elwa o arbenigedd a phrofiadau aelodau annibynnol ac yn gyffrous i weithio mewn ffordd newydd, mwy atebol."

Mae 5 lle ar Fwrdd Cyfarwyddwyr newydd Mentrau Iaith Cymru. Rydym yn awyddus bod un o'r aelodau yn berson ifanc 19 - 25 oed, ac rydym yn arbennig yn awyddus i recriwtio unigolion sydd â phrofiad neu arbenigedd mewn:

**Cydraddoldeb a chynhwysiant**
**Cysylltiadau cyhoeddus a marchnata**
**Cynllunio ieithyddol a chymunedol**
**Denu nawdd**

Bydd y Bwrdd yn cwrdd 4 gwaith y flwyddyn a bydd aelodau'r Bwrdd yn cynorthwyo'r cyfarwyddwyr gweithredol i roi cyfeiriad strategol i waith Mentrau Iaith Cymru ac i eirioli dros y mudiad wrth iddyn nhw gefnogi gwaith y 22 Menter Iaith ar draws Cymru.

Dyddiad cau ar gyfer ymgeiswyr yw 18fed Hydref am hanner dydd.

Mae ffurflen gais ar gael ar wefan Mentrau Iaith Cymru https://mentrauiaith.cymru/mentrau-iaith-cymru-yn-chwilio-am-aelodau-bwrdd-annibynnol/

Am ragor o fanylion cysylltwch â post@mentrauiaith.cymru








ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

# CHWILAIR MIS HYDREF – GRWPIAU POP

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | S | E | R | O | L | S | E | R | O | L | C | Ch | U | A |
| Y | E | M | A | N | Ŵ | B | R | O | D | Y | M | E | Ll | T |
| N | D | H | R | N | D | E | W | I | B | R | T | S | W | P |
| W | F | E | A | L | Ff | A | Dd | Y | L | O | I | G | D | Y |
| A | R | M | H | P | E | D | E | N | O | G | C | W | M | C |
| R | I | S | O | F | Ph | L | T | O | D | R | N | I | O | D |
| Y | S | C | P | A | P | U | R | W | A | L | Ŵ | L | Y | C |
| R | B | A | L | D | E | S | E | Ll | U | I | O | Y | S | A |
| O | E | T | U | W | R | L | A | Y | P | R | E | M | T | N |
| D | E | A | Ng | A | Y | O | D | Th | A | C | N | W | B | D |
| S | U | T | P | I | N | G | R | M | P | Th | B | S | A | E |
| F | Ff | O | M | Th | D | S | A | Dd | U | F | R | D | U | L |
| T | F | N | S | I | U | Y | C | H | R | O | M | A | N | A |
| E | R | I | D | A | F | L | E | U | R | D | E | L | Y | S |
| Ph | D | A | T | B | L | Y | G | I | A | D | Y | Dd | A | I |

Gawsoch chi gyfle i wrando/gwylio cerddoriaeth fyw dros yr haf? Pa grŵp neu grwpiau fyddwch chi'n hoffi gwrando arnynt? Dyma rai sydd i'w clywed ar y radio ac wedi bod wrthi'n gigio'n brysur dros fisoedd yr haf.

| | | |
|---|---|---|
| FLEUR DE LYS | CATATONIA | ADWAITH |
| FRISBEE | CHROMA | ALFFA |
| GWILYM | COLORAMA | BLODAU PAPUR |
| MELLT | DATBLYTIAD | BWNCATH |
| PAPUR WAL | EDEN | CANDELAS |
| PLU | SEROL SEROL | SŴNAMI |
| YR ODS | YSGOL SUL | |







Cewch yr atebion i'r chwilair yn rhifyn nesaf yr Eco. Cofiwch fod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

## ATEBION I CHWILAIR MIS AWST A MEDI - EISTEDDFOD

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | G | O | R | S | E | Dd | Y | B | E | I | R | Dd | W | U |
| B | I | C | M | S | U | T | Ŷ | G | W | E | R | I | N | D |
| D | M | E | D | A | L | R | Y | Dd | I | A | I | Th | E | A |
| A | R | I | A | D | A | C | S | T | F | N | R | S | D | W |
| W | E | D | N | M | E | T | L | I | Ch | C | B | D | A | N |
| N | C | W | W | T | I | D | R | G | W | Y | A | E | W | S |
| S | O | A | I | N | S | P | A | I | S | Ng | N | T | N | F |
| I | R | D | L | A | B | E | R | Th | G | E | D | I | S | L |
| O | N | Y | I | D | T | O | Ch | A | C | R | I | I | I | O |
| G | H | C | F | Dd | E | F | Dd | T | I | Dd | A | E | O | D |
| W | I | L | A | R | M | A | E | S | B | W | U | Dd | D | A |
| E | R | E | P | E | C | O | R | O | N | O | P | C | I | U |
| R | L | Dd | R | C | G | H | W | D | A | Ng | R | O | S | T |
| I | A | M | Y | B | I | L | Y | Ll | H | Ph | E | D | G | A |
| N | S | W | S | Ff | E | C | Dd | U | I | T | S | A | O | L |

| | | |
|---|---|---|
| ABERTHGED | CORN HIRLAS | GORSEDD Y BEIRDD |
| ARCHDDERWYDD | CORON | MAES B |
| BANDIAU PRES | CYNGERDD | MEDAL RYDDIAITH |
| CADAIR | DAWNS FLODAU | PAFILIWN |
| CEIDWAD Y CLEDD | DAWNSIO DISGO | PRIFARDD |
| CERDD DANT | DAWNSIO GWERIN | TŶ GWERIN |


Gwaith Coffaol
LLANRUG

Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898



AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*




# PROSIECT 5 MIL GWYRDDNI

....nid y gyfres deledu!

Mae GwyrddNi Dyffryn Peris eisiau cefnogi grwpiau cymunedol a thir-feddianwyr i ddatblygu prosiectau cynaladwy o themau Cynllun Gweithredu Hinsawdd Dyffryn Peris



Ysgol Bethel + Tyddyn Teg

Ydych chi angen cyngor, offer, hyfforddiant, digwyddiad neu rywbeth arall i symyd eich syniad yn ei flaen?





Llun : Y Festri, Llanberis

Gallwn eich cefnogi gyda gweinyddu, ymchwilio, rhwydweithio, eli pen-elin a phrynnu adnoddau, gwerth hyd at £5,000.

Cysylltwch gyda Lowri am sgwrs.
Cnoc ar y drws - llawr gwaelod, Caban, Brynrefail
lowri@deg.cymru
www.gwyrddni.cymru/dyffryn-peris/

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD
GWYRDDNI
COMMUNITY • CLIMATE • ACTION

**Eve Goodman & Tacla yn Caban, Brynrefail**
Estynnir croeso cynnes i chi i'r noson gymunedol hon ar y cyd rhwng Caban CIC, Partneriaeth Dyffryn Peris, GwyrddNi, Stori'r Tir.

Mae'n ran o Wyl Cynhaeaf fechan, gyda digwyddiadau eraill yn Tyddyn Teg ar ddydd Sadwrn y 5ed a noson o ddarllen straeon yn Y Vaynol, Nant Peris nos Sul y 6ed. Mwy ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol GwyrddNi. Mae hwn yn ddigwyddiad gwrando a gwerthfawrogi cerddoriaeth. Plis gadewch unrhyw sgwrsio i'r egwyl.




**Partneriaeth Dyffryn Peris**
Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn Caban, Brynrefail, am 6.00pm nos Fercher 9fed Hydref i drafod sefydlu Partneriaeth Dyffryn Peris. Bydd yn ddilyniant i gyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Medi ac fe fydd yn gyfle i gytuno ar unrhyw faterion gweddillol, cyflwyno drafft o gynllun busnes, cytuno blaenoriaethau gweithredu a beth fydd y 'prosiect mawr cyntaf'.

Rydym yn gobeithio y gallwn lansio'r Bartneriaeth ddiwedd Tachwedd felly dewch yn llu i'r cyfarfod er mwyn i ni gael cychwyn ar y gwaith!


Peiriannydd Carafan Teithiol
MD
MD Caravans
MCEA
Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs


## Holi Hwn a Holi Hon

# Iola Gruffydd yw gohebydd Waunfawr Eco'r Wyddfa

**Enw a ble ydach chi'n byw?**
Iola Llew neu Iola Cynfi fyddai'n cael fy ngalw rhan amla. Rydw i'n byw'n Waunfawr ers dros 30 mlynedd. Un o Waunfawr oedd fy nhaid, felly dwi wedi teimlo'n gartrefol yma o'r cychwyn.

**O ble ydach chi'n dod yn wreiddiol?**
Deiniolen – yn benodol, Cynfi, Gallt y Foel, Deiniolen! Siop oedd Cynfi yn ystod fy mhlentyndod yn cael ei rhedeg gan fy nain, ac roedd yn lle braf iawn i gael fy magu.

**Hoff le yn y fro, a pham?**
Cefn Du, Waunfawr – rwy'n gallu cerdded yma o'r tŷ ac yn gallu gweld yr ardal gyfan o'r copa. Mae'n anodd meddwl am olygfa well.

**Eich hoff air Cymraeg?**
Mae hwn yn ddewis anodd gan bod ganddom gymaint o eiriau bendigedig. Dwi'n hoff o'r gair gwehyru – nid am fy mod yn hoff o geffylau ond oherwydd ei fod yn f'atgofffa o rywbeth byddai criw o ffrindiau o Ddeiniolen yn ei ddweud erstalwm sef "dwisho gwehyru" pan roeddem yn gweld rhywbeth yn ddoniol. Anaml fyddai'n ei ddefnyddio na'i glywed dyddiau yma, ond mi glywais o yn cael ei ddweud ar Gogglebocs Cymru yn ddiweddar ac ro'n i wedi gwirioni.

**Be sy'n eich cadw'n brysur?**
Gofalu am y mab, cerdded hynny fedra'i a chyfarfod ffrindiau.

**Be sy'n eich gwylltio?**
Lle dwi'n dechrau? Brexit, methiant gwleidyddion ar draws y byd i weithredu er budd y blaned, pobl sy'n gor-yrru drwy Waunfawr…

**Be sy'n eich gwneud yn hapus?**
Y frawddeg "mae bwyd yn barod".

**Oes gennych chi uchelgais i'r dyfodol, i chi eich hun neu i'r fro?**
Mi fyddai'n braf iawn gweld syrjeri newydd Waunfawr yn cael ei hadeiladu yn y dyfodol agos!



# Ffermydd y Fro

Mae rhai o drigolion hynaf pentref Waunfawr yn siŵr o gofio'r ffermwr a'r bardd lleol, y diweddar Tom H Williams, Garreg Fawr. Cyfansoddodd Tom gannoedd o benillion a theyrngedau ar gyfer pob digwyddiad ac achlysur. Ymysg y penillion a gyfansoddodd oedd rhai am enwau ffermydd a thyddynod ardal y Waun a Betws Garmon.

Garreg Fawr a Threflan Ucha,
Treflan Isa mor ddi-stŵr,
Ty'n y Wern a Thy'n Ronnen
A Thy'n Ceunant ger y dŵr,
Yr Ynysoedd a Thai Isaf,
A Ffridd Felen eto'n llon,
Gwastadfaes a Phant y Celyn
A'r Rallt Goch ynghyd â'r Fron.

Cawn Ty''n Gadlas a Thŷ Pella
A Chae Caled a Thanbryn,
Grasbil, Bendas, Hafod Olau
A Bryn Tirion wedi hyn;
Dinas a Blaen Ffridd, Cae Trefor,
Groeslon Isaf a Chae Mawr,
Penybryn, Tŷ Coch, Gorffwysfa,
Prior a Graig Lwyd ddaw'n awr.

Tŷ'n Cae Newydd, hefyd Gadda
Weirglodd Dywyll 'n olau iawn,
A Glan Gwyrfai, tyddyn bychan
Cyrnant Lodge a'r enwau llawn;
Cefn y Waun a thoc Bryn Melyn,
Y mae llawer mwy na hyn,
Cip bach sydyn ar Lwyn Celyn,
Penffordd Bangor a Thŷ Gwyn,

Daw Bryn Goleu a Maes Gwynedd
Cyn Cae'r Waun, Hen Dŷ, Pant Gwyn,
A Bryn Gwylan a Phant Afon
Collfryn, Rala wedi hyn;
Croes y Waun, Cae Gwyn, Pant Cerrig
A Thy'n Twll i weld y praidd,
Ty'n y Cae, Bryn Gwyn, Rhwng Ddwyryd,
Heb fod 'mhell mae Pant Cae Haidd.

Daw Brynargoed a Bryn Beddau,
Dyffryn hefyd 'rôf i lawr,
Yn y man daw Cae Mab Ynyr,
Yna 'mlaen i'r Weirglodd Fawr;
Gwell yw enwi'r Parc wrth basio
A daw Cross wrth fynd ymlaen
A'r Fach Goch tu cefn i'r capel,
Ger yr afon . . . Tan y Waun.

Tir Fron Goediog a Bod Hyfryd
A Bryn Celyn 'nghyd â'r Plas,
Ceir Glyn Afon ar y gwaelod
Llys Meredydd a Chae Glas;
Tros yr afon gwelir Cyrnant,
A'r Rallt Isa ar y gair,
A Bryn Gwyrfai, Regal hefyd
A Bryn Siriol a Bryn Mair.

Ty'n y Mynydd a Thŷ Newydd,
A Phenrallt mewn awel iach,
Gwredog Uchaf, Gwreddog Isaf,
Toc Tanrallt a Gwredog Bach;
Awn yn ôl ac i Gilfechydd,
Yna'r Parc ddaw gyda hyn
Tir Llwyn Bedw a Chae 'Sgubor,
Pentre Bach a Phentre Gwyn.

Cawn y Plas, Tanffordd a'r Tynys,
Hafod Wern a thir Tŷ Coch
Tyddyn Bach, y Trosgol, Clogwyn
Betws Inn a Bryn y Gloch;
Ystrad Isaf, Ystrad Uchaf,
A Chae Hywel tros y dŵr,
Minffordd hefyd wrth y drofa
A Bryn Afon gawn yn siŵr.

T.H.Williams (Tom Garreg Fawr.)

Dyfyniad allan o'r gyfrol Y Waun a'i Phobl, gan y diweddar R. Gwynn Davies.

Un o'r beirdd gwlad amlycaf yn ei gyfnod oedd T. H. Williams, Garreg Fawr. Am flynyddoedd lawer ef oedd lladmerydd yr ardal ar bob digwyddiad yn y lle. Nid yw'n ormod dweud iddo gyfansoddi cannoedd o ganeuon ar gyfer priodasau, angladdau, digwyddiadau yn yr ardal, ac yn wir ar unrhyw amgylchiad oedd yn haeddu sylw. Cafodd ei urddo er anrhydedd gan yr Orsedd fel "Tom Garreg Fawr". Dysgodd genedlaethau o blant yr ardal i adrodd. Roedd ei chwaer, Jennie (mam Eigra Lewis Roberts), yn adroddwraig amlwg o dan yr enw "Gaunferch", ac enillodd unwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Mois**


E. W. PRITCHARD
*Trefnwyr Angladdau*
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Premier
SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.

JJ
Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe Register
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
*Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser*
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718




# Nodiadau Natur

Wrth ysgrifennu hwn, mae'n teimlo'n oerach, dail yn sypiau hyd y llwybrau a'r glaw yn llifo i lawr y ffenestri, mae'n teimlo'n hydrefol yng nghanol mis Medi! Rydym eisoes wedi ffarwelio â'r gog ac yn fuan iawn mi fydd y gwenoliaid yn cychwyn ar eu taith o Gymru fach hefyd. Felly dau aderyn sy'n cael sylw'r mis hwn, Y Wennol Ddu a'r Wennol. Mi fyddai bob amser yn falch o'u gweld nhw'n cyrraedd yma gan fod hynny'n arwydd bod yr haf ar ei ffordd, er cofiwch 'Un wennol ni wna wanwyn', meddan nhw. Ar y llaw arall pan fyddai'n eu gweld nhw'n dechrau hel at ei gilydd ar y gwifrau, mi fyddai'n drist, oherwydd mae'n arwydd bod yr hydref a'r gaeaf ar ein gwarthaf.





**Gwennol** *(Swallow)* **(*Hirundo rustica* o'r teulu *Hirundinidae*)**
Wennol faswn i'n ei ddeud ar lafar, ond mae enwau eraill iddi, megis Y Wennol neu Gwennol y Simdde. Bydd y gwenoliaid cyntaf yn dychwelyd i wledydd Prydain ddechrau Mawrth ac yn aros hyd fis Hydref. Mi fyddai'n eu gwylio yn hedfan dros y caeau gerllaw ein tŷ ni ac mae gen i syniad eu bod yn dod yn ôl pob blwyddyn i nythu yn Nhŷ Cipar, hen adfail yn y caeau.

Maent yn lliw gloywlas tywyll cyfoethog, tra bo'r adenydd ychydig yn fwy brown eu lliw. Mae'r bol yn lliw hufen ac mae oren golau i'w weld arno hefyd. Mae ganddi dalcen a gwddw browngoch ac mae rhesen las ar draws ei bron a rhesen wen ar draws ei chynffon fforchiog. Yr hen geiliogod sydd a'r cynffonnau hiraf ac mae'n hawdd dweud mai gwennol ydyw oherwydd y gynffon sydd fel rhubanau ar ei hôl. Mae'r gwryw a'r fenyw bron yn edrach yn union yr un peth.

Maent tua 17- 19cm o hyd ac yn pwyso tua 16 - 25g ac yn byw am oddeutu 2 mlynedd ar gyfartaledd er bod cofnod i rai fyw am 11 mlynedd.

Maent yn nythu mewn hen dai ac ysguboriau (roedd rhai yn yr hen ysgubor pan euthum i ymweld â'r Ysgwrn yn ddiweddar). Maent yn gwneud nyth o fwd ac yn rhoi dail a mwsog a phlu fel gwely cyfforddus i'r cywion. Byddant yn dodwy rhwng 4 - 5 o wyau gwyn efo sbotiau tywyll arnynt, ac yn ddibynnol ar yr amodau, mi fyddan nhw'n magu 2 neu 3 nythiad bob blwyddyn. Gall yr un par ddychwelyd i'r un nyth sawl tro.

Yn yr hydref byddant yn clwydo yn yr hesg mewn haid fawr, ac erstalwm roedd yr hen bobl yn coelio eu bod yn aros mewn corsydd yn y mwd dros fisoedd oer y gaeaf. Mae hyn, yn ogystal â phan fydd criw ohonynt yn casglu'n swnllyd ar wifrau ffon neu drydan, yn arwydd eu bod yn dechrau paratoi i ddychwelyd yn ôl i Dde Affrica a Namibia.

Maent yn hedfan yn is na'r Wennol Ddu, ac yn aml i'w gweld yn hela pryfetach uwch laswellt neu dros afonydd neu lynnoedd, gan godi dŵr o'r arwyneb yn ôl y gofyn. Mae coel gwrach yn dweud os ydynt yn hedfan yn isel bod tywydd drwg ar y ffordd.

Yn rhyfeddol maent yn byw ar yr adain am oddeutu 10 mis o'r flwyddyn, gan gysgu a bwydo heb ddychwelyd i'r ddaear.

**Gwennol Ddu** *(Swift)* **(*Apus apus* o'r teulu *Apodidae*)**
Apus yw'r gair Lladin am Gwennol Ddu. Mae'n deillio o Hen Groeg α, a, sy'n golygu 'heb' a πούς, pous sy'n golygu 'troed' ac felly'n seiliedig ar y gred bod yr adar yma'n rhyw fath o wennol heb draed. Mae'r enw teuluol Apodidae (hefyd yn golygu heb draed) ac yn awgrymu bod ganddynt draed bach iawn. A deud y gwir mae ganddynt draed bach iawn, gyda 4 bodyn yn pwyntio 'mlaen, sy'n eu galluogi i ddal gafael ar wyneb garw ond nid ydynt fel Gwennol yn gallu clwydo ar wifren neu frigyn. Fodd bynnag mae plu'r gynffon wedi addasu i'w helpu i lanio a symud o gwmpas ar arwynebau fertigol.

Mae ganddi sawl enw, megis – Gwrach yr Ellyll; Aderyn yr Eglwys; Asgell Hir; Aderyn Du'r Llan; Y Folwen neu Sgilpen. Tybed faint o'r rhain sy'n gyfarwydd i chi?

Mae'n liw brownddu a phen sgwâr a chorff tenau. Mae ei phig yn fychan ond ei cheg yn fawr, jest y peth i ddal pryfed wrth hedfan. Yn yr awyr mae fel siâp cryman a chynffon fforchog.

Maent tua 16 - 17cm o hyd ac yn pwyso tua 36 - 50g ac yn byw am oddeutu 10 mlynedd ar gyfartaledd er bod cofnod i rai byw am 25 mlynedd.

Maent yn adar mwy dinesig na'r Wennol ac yn hoffi nythu mewn hen adeiladau neu dyrrau eglwysi. Mae'r niferoedd wedi prinhau yn ddiweddar ac mae rhai tai newydd yn cael eu hadeiladu efo bricsen iddynt nythu ynddi er mwyn ceisio cynyddu'r niferoedd. Un nythiad o 2- 3 wy fydd ganddynt a nhw yw'r unig aderyn pryfysol sydd efo cywion sy'n deor o'r wyau ar gyfnodau ysbeidiol sy'n rhoi mwy o siawns i'r hynaf oroesi os na fydd yr amodau'n dda i weddill y nythiad. Os nad ydy hynny'n ffaith i'ch synnu gall y cywion oroesi cyfnodau o dywydd oer pan nad yw'r rhieni'n gallu casglu digon o fwyd ar eu cyfer, trwy fynd yn swrth '*state of torpor*'.

Dydy'r rhain ddim yn nythu acw, gwaetha'r modd, ond mi fyddai'n eu gweld nhw ac yn eu clywed nhw'n sgrechian uwch fy mhen wrth i mi ddisgwyl am y wyrion i ddod o ysgol Gwaun Gwynfi!

Ffaith ddifyr arall i gloi nhw ydy'r adar cyflymaf ar ehediad lefel gyda chyflymder uchaf anhygoel o 69 milltir yr awr.

Da ydy Natur!

Cofiwch fod can croeso i unrhyw un ymateb i'r cynnwys neu i rannu eu gwybodaeth a phrofiadau am fyd natur efo ni.

ON - Mae cerdd i gyd-fynd efo nodiadau'r mis hwn, sef, **'Ffarwel i'r Gwenoliaid'** - mwynhewch!









## BRYNREFAIL



**Sefydliad y Merched**
Cafodd yr aelodau fwynhau gwibdaith ddydd Mercher 17eg Gorffennaf.

Roedd nifer dda wedi ymgynnull am naw o'r gloch y bore yn safle Arvonia i gychwyn ar y daith am Sir Ddinbych a chyrraedd Allfa Tweed Mill ger Llanelwy mewn da bryd i siopa ac aros am ginio.

Ymlaen wedyn i Bodrhyddan Hall lle croesawyd ein grŵp ar gyfer ein tywys o amgylch y Neuadd. Yno cawsom hanes yr Arglwydd Langford a'i deulu fu'n breswylwyr yno ers dros 500 mlynedd. Cawsom ein harwain drwy ystafelloedd llawn hanes, gwaith celf a dodrefn hynafol a hanes teithiau y teulu yn yr Aifft. Cawsom gyfle i weld mwmi o'r Aifft a nifer eraill o arteffactau a ddychwelwyd i Gymru gan aelodau'r teulu. Roedd gerddi hynod o hardd o amgylch y Neuadd a chawsom dreulio amser yn cerdded a'u mwynhau wedi paned a theisen.

Diwrnod arbennig a phawb wedi mwynhau y daith.



# Ysgol Brynrefail



**Noson Wobrwyo**
Unwaith eto eleni roedd hi'n hynod braf cael cynnal Noson Wobrwyo arbennig ar nos Llun, Medi'r 9fed i ddathlu llwyddiannau disgyblion TGAU a Lefel A dros yr haf. Daeth yr athrawon, rhieni a'r disgyblion at ei gilydd i neuadd yr ysgol a chawsom noson fendigedig yn llongyfarch yn gynnes iawn nifer fawr o'n disgyblion cydwybodol ac ymdrechgar.

Rhoddwyd clod arbennig i'r disgyblion hynny oedd wedi ennill graddau A* ac A yn eu harholiadau TGAU a Lefel A. Yn ychwanegol at hyn roedd pob adran wedi enwebu un disgybl i ennill gwobr cynnydd yn eu pwnc ac un arall i dderbyn gwobr safon yn y pwnc hwnnw ar lefel TGAU a Safon Uwch. Llongyfarchiadau i'r disgyblion hyn oll am ganlyniadau ac ymdrech arbennig. Dymuniadau gorau hefyd i'r rhai hynny sydd bellach wedi cychwyn ar eu cyrsiau coleg a phrifysgol a phrentisiaethau gwahanol. Cofiwch bydd croeso cynnes yma i chi yn Ysgol Brynrefail bob amser!

**Prif ddisgyblion 2024-25**
Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu hethol yn brif ddisgyblion yr ysgol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Etholwyd nhw yn dilyn ceisiadau a chyflwyniadau gan ddeg o flwyddyn 12 oedd yn awyddus i wneud cais am y swyddi. Cafwyd cyflwyniadau o safon uchel iawn ym mis Gorffennaf, a phawb a ymgeisiodd yn gallu cyflwyno eu syniadau yn hyderus a diddorol i gynulleidfa o athrawon a'u cyd-ddisgyblion ym mlwyddyn 12. Dyma'r disgyblion ddaeth i'r brig yn yr etholiad wedi'r cyflwyniadau hynny:

Prif ddisgyblion: Branwen Gruffudd a Gwern Jones

Dirprwy brif ddisgyblion: Gruff Harris, Ellie Gosset ac Eric Hartsuiker

Edrychwn ymlaen i'w gweld yn arwain ac yn cyfrannu mewn gwahanol feysydd yn ystod y flwyddyn.

**Croeso blwyddyn 7!**
Braf iawn oedd gweld disgyblion newydd blwyddyn 7 yn y Neuadd ar ein bore cyntaf yn ôl yn yr ysgol ar Fedi'r 4ydd. Roedd pawb yn eu gwisgoedd ysgol newydd yn edrych yn fendigedig, yn amlwg yn edrych mlaen at gychwyn yn yr ysgol uwchradd.

Mae pedwar dosbarth yn y flwyddyn a bellach mae pawb wedi dod i adnabod eu ffordd o gwmpas yr ysgol wrth fynd o un wers i'r llall ar eu hamserlen newydd. Mae'n dda iawn gweld cymaint o blant blwyddyn 7 wedi gwneud ffrindiau newydd hefyd mewn cyfnod cymharol fyr. Rydym i gyd yn gwneud ein gorau i helpu blwyddyn 7 setlo i fywyd a threfn yr ysgol ac yn dymuno'r gorau iddyn nhw ar ddechrau eu taith trwy'r ysgol.

# BRYNREFAIL

**Eglwys Sant Deiniol**
Roedd y cyfarfod gafwyd ar 4ydd Awst yn un arbennig a theimladwy yn hanes yr Eglwys. Derbyniwyd chwe aelod o'r un teulu yn ystod y gwasanaeth trwy Fedydd a Chonffyrmasiwn, sef teulu Diane Thomas o Fethel – Lili Mai, Gethin, Lydia, Gwydion a'u tad Dylan. Gweinyddwyd gan y Gwir Barchedig David Morris, Esgob Bangor yn cael ei gynorthwyo gan y Ficer y Canon Naomi Starkey a John O Jones.

Hwn oedd y Gwasanaeth cyntaf o'i fath i'r Esgob ymgymryd ag ef ers ei benodi i'w swydd yn yr Esgobaeth ac yr oedd yn mawrygu y fraint.

Gwasanaethau'r hydref:
6ed Hydref am 3 y prynhawn – Hwyrol Weddi a Gwasanaeth Diolchgarwch.







# Diffibriliwr Newydd Pontrug

Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn falch o gyhoeddi eu bod wedi gallu darparu diffibriliwr arall i'r gymuned. Hwn yw'r nawfed sydd yn yr ardal ac wedi ei leoli ym Mhontrug ger y gyffordd ble rydych yn troi i'r chwith am Gaernarfon ac i'r dde am Llanrug o gyfeiriad Caeathro.

Yn y llun mae'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Cyngor Gwynedd) a'r Cynghorydd Rhys Parry (Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug) gyda'r diffibriliwr.




Dywedodd Y Cynghorydd Rhys Parry "Rwyf yn hynod hapus fod diffibriliwr wedi cael ei leoli yn yr ardal ar ôl i'r cyngor adnabod yr angen am un arall, yn enwedig yn yr ardal yma o'r gymuned. Yn sicr, rydym fel cyngor yn adnabod pwysigrwydd y ddyfais yma mewn amser o argyfwng. Mae pob eiliad yn bwysig mewn argyfwng o'r fath. Bydd hyfforddiant diffibriliwr yn cael ei gynnal i drigolion y gymuned yn fuan gyda'r gobaith o fedru rhoi gwybodaeth a'r hyder i ddefnyddio dyfais o'r fath os bydd yn rhaid.

Hoffwn ddiolch i'r holl Gynghorwyr Cymuned am eu gwaith yn penderfynu ar safle addas i'r dyfais ag hefyd i Gyngor Gwynedd am y caniatâd a'u gwaith sydyn a thaclus yn rhoi'r ddyfais yn ei lle.

Fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug, rwyf yn gweld effaith mae gweithgaredd o'r fath yn ei gael ar y gymuned ac yn estyn gwahoddiad i unrhyw un yn y gymuned ymuno gyda ni fel cynghorydd cymuned i wasanaethu'r gymuned sydd yn agos iawn at galonnau llawer ohonoch dw i'n siŵr fel y mae i minnau."

Am sgwrs ar sut i ymgeisio i fod yn gynghorydd cymuned, cysylltwch gyda'r Clerc clerc@llanrug.cymru

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Materion o'r Cofnodion

**Llwybr Rhes Uchaf, Rhiwlas**

Nodwyd fod y tyllau ar y llwybr wedi eu llenwi bellach a diolch i Gyngor Gwynedd am wneud hyn.

**Cynllunio**

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

***C24/0467/18/AC - Bakhita, Bethel***

Cais i ddiwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C19/0415/18/LL ar gyfer codi tŷ deulawr a datblygiadau cysylltiol er mwyn diwygio'r cynlluniau a gymeradwywyd. Dim gwrthwynebiad.

***C24/0472/18/LL - Parciau Rhos, Bethel***

Cais am adeilad amaethyddol newydd at ddibenion storio gweithdy fferm

Gwrthwynebu ar sail gor ddatblygu heb dystiolaeth o ffermio a phryder o droi yn stad fusnes.

**C24/0378/18/LL - Ael y Garth, Y Felinheli**.

Codi stabl a storfa cyfarpar newydd. Dim Gwrthwynebiad.

C24/0386/18/DT - Freshwinds, Penisa'r-waun.

Dymchwel modurdy ochr bresennol a chodi estyniad deulawr newydd i ochr yr eiddo. Dim Gwrthwynebiad

C24/0443/18/DT - Tŷ Mawr, Clwt y Bont

Codi sied/gweithdy gyda phaneli haul ar y to. Dim Gwrthwynebiad.

**Llwybrau**

***Llwybr 122*** - Derbyniwyd cadarnhad gan adran llwybrau, Cyngor Gwynedd o'n cwyn eto ynglŷn â'r giât anghyfreithlon ar y llwybr yma.

***Llwybr Sinc*** - Mae ein darparwyr torri llwybrau yn gwrthod ymdrin â thorri'r llwybr yma bellach oherwydd bod cymaint o faw ci yn cael ei daflu neu ei adael yn y gwair. Mae hyn yn digwydd, er bod yna fin i faw ci ar gychwyn y llwybr ger y Cwt Band. Da chi bobl sydd gyda chi, codwch faw eich ci lle bynnag y bo, neu dyma fydd yn digwydd ar bob llwybr.

***Llwybr tuag at Ffynnon Bethel*** - Cais i gael ei dorri**.**

***Llwybr ger Capel Glasgoed a Tawelfan*** - Cais i dorri ger y giât

***Llwybr heibio Capel Bethel*** - Mae'n ymddangos fod yr arwyddion fod y llwybr yma wedi cau wedi eu symud. Hyd nes bydd y llechi ar do'r capel wedi eu gwneud yn ddiogel, ni fydd y llwybr yma ar agor i'r cyhoedd.




# Cyngor Cymuned Llanrug

## CYFARFOD 18FED MEHEFIN, 2024

1. **Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.**

2. **Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mehefin 18, 2024 yn gywir.**
Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

3. **Derbyniwyd adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones, sef aelodau dros Llanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd** (copiau i'w cael gan y Clerc)

4. **Derbyniwyd diweddariad ar faterion yn ymwneud** â **Hamdden a Mwynderau.**
**Materion a drafodwyd** -

- Mae lleoliad ar gyfer diffibriliwr arall wedi ei benderfynu, mae'r offer wedi cyrraedd ac mae trefniadau ar y gweill i'w osod. **Penderfynwyd** mai'r lleoliad gorau oedd wrth ymyl cyffordd Pontrug. Mae trefniadau ar y gweill i roi hyfforddiant, a'r bwriad fydd cael un sesiwn yn y pnawn ac un gyda'r nos.
- Adroddwyd fod y Clymog Siapan yn ôl mewn lleoliad yng Nghwm y Glo a bod yr achos wedi ei gyfeirio at arbenigwr.
- Adroddwyd fod y gwaith a adnabuwyd ar y parc sglefrio, yn dilyn asesiad risg, wedi ei wneud.
- Nodwyd fod angen chwilio am goeden newydd ar gyfer Cwm y Glo er cof am y diweddar Gynghorydd Brian Jones.
- Awgrymwyd pwrcasu coeden rhosod fel anrheg i'r cyn-gynghorydd Meirwen Lloyd, yn dilyn ei ymddeoliad diweddar o'r cyngor.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad a symud ymlaen i bwrcasu coeden newydd er cof am y diweddar Gynghorydd Brian Jones ac i bwrcasu coeden rhosod ar gyfer y cyn-gynghorydd Meirwen Lloyd.

5. **Derbyn diweddaraiad ar fateiron yn ymwneud a'r Pwyllgor Bwyd a Llesiant**
Mae y cyfnod i wneud cais am grant oddi wrth Cist Gwynedd wedi agor, ond fod angen eglurhad os byddai cyflenwad o wyau a bara yn gallu disgyn i gategori gwariant cyfalaf. Os y byddai, yna mae'n bosib derbyn hyd at £5000 o grant neu os ei ystyrir yn wariant refeniw yna £2000 fyddai'r grant. Mae'r clerc yn holi am hyn.

Gofynnwyd os byddai yn bosib hysbysebu am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r cynllun dosbarthu bwyd ar ddydd Gwener. Mae angen cymorth yn y bore rhwng tua 11:00 a 12:30 ar gyfer didoli'r bwyd a byddai o help cael cymorth yn y prynhawn i helpu dosbarthu.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiadau. Hefyd i hysbysebu am wirfoddolwyr ar gyfrif Facebook y Cyngor a'i ychwanegu ar ein gwefan.

6. **Derbyn diweddariad am faterion yn ymwneud â'r fynwent**
Pwyntiau gan swyddog o'r ICCM yn dilyn ei asesiad risg yn y fynwent, wythnos 10fed Mehefin.

Wedi synnu fod cymaint o gofebion wedi eu trwsio ers yr asesiad risg diwethaf.

Fod gwaith da wedi ei wneud gan y person sydd wedi gosod y stêcs a'r tap. Angen mynd o gwmpas rŵan yn ail osod y tap ble mae wedi disgyn dros amser.

Gwaith da trwsio cofebion peryglus gan Roberts & Owen ac roedd o'n amau fod y contractwyr wedi gwneud mwy na 20 o gofebion ( y ffigwr yn y cytundeb gyda'r Cyngor).

Fe ddylai y Cyngor sicrhau fod pawb sydd yn gweithio yn y fynwent yn anfon manylion eu hasesiad risg, 'safe systems of work' a chopi o'i yswiriant atebolrwydd i'r Cyngor.

Awgrymodd yn gryf ein bod yn dod a'r broses o agor beddi yn fewnol oherwydd nad oes rheolaeth dros agor beddi.

Am y cofebion sydd heb gael sylw/gwaith arnynt ers yr archwiliad diwethaf, awgrymwyd fod y Cyngor yn cyhoeddi diolchiadau i bawb sydd wedi gwneud y gwaith ac sydd wedi cynorthwyo tuag at wneud y fynwent yn ddiogel i bawb.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

7. **Ceisiadau Cynllunio**
**Rhif y Cais: C24/0400/23/DT**
Dymchwel ystafell wydr bresennol. Codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo a phorth unllawr i flaen y tŷ Dwyros, Ffordd Glanffynnon, Llanrug.

**Penderfynwyd**: Cefnogi'r cais.

## CYFARFOD 16EG GORFFENNAF, 2024

1. **Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau.**

2. **Derbyniwyd cofnodion Mehefin yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.**

3. **Derbyniwyd adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones, sef aelodau dros Llanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd** (copiau i'w cael gan y Clerc)

4. **Derbyniwyd diweddariad ar faterion yn ymwneud** â **Hamdden a Mwynderau.**
Ymysg yr hyn a drafodwyd oedd:

a) Bu'r cadeirydd a'r is-gadeirydd mewn cyfarfod efo'n contractwr i drafod asesiad risg y caeau chwarae. Nodwyd y bydd ein contractwr yn gallu gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith ond fod peth o'r gwaith angen contractwr arbennig.

b)Nodwyd fod angen gwneud asesiad risg ar offer yn y gampfa allanol yng Nghwm y Glo a bydd y cwmni a'i gosodwyd yn cyflawni yr asesiad yma yn unol â'r drefn.

c) Fens cae chwarae Pwll Moelyn angen ei adnewyddu - pris wedi ei geisio.

ch) Trefniadau ar y gweill i gynnal sesiwn hyfforddi ar gyfer y diffibriliwr. Gobeithir cynnal dwy sesiwn yn y Sefydliad Coffa, un yn y prynhawn a'r llall gyda'r nos.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

5. **Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Bwyd a Llesiant**
Adroddwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod â swyddog o Adra i holi am grantiau ar gyfer y cynllun bwyd, a teg yw dweud fod y swyddog am helpu gyda'r cynllun.

Nodwyd fod y cynllun bwyd yn mynd yn ei flaen yn eithaf sefydlog gyda dim llawer o newidiadau.

O ran y grant disgresiwn, adroddwyd fod pawb sydd yn cael pecynnau bwyd wedi cael manylion am y grant disgresiwn beth amser yn ol bellach, ac mai dim ond un cais a dderbyniwyd a bu'r cais yma yn llwyddiannus. Penderfynwyd gyrru'r ffurflenni cais allan eto wrth dosbarthu bwyd yr wythnos yma gyda amlen a stamp i anfon unrhyw gais yn ol i'r clerc.

**Penderfynwyd**: Derbyn a di olch am yr adroddiad.

6. **Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**
Rhai o'r materion a drafodwyd:

- Bu'r pwyllgor yn edrych ar reolau'r fynwent a penderfynwyd nad oedd angen eu haddasu ar hyn o bryd.
- Adroddwyd fod y gwaith diogelu ar tua 20 o gofebion wedi ei weithredu gan y contractwr.
- Mae canlyniad Cystadleuaeth y Flwyddyn wedi cyrraedd ac mae'r sgor yn uwch na'r llynedd, sydd yn galonogol. Bydd swyddog yn cysylltu i wirio ein cais maes o law, a bryd hynny byddwn yn cael gwybod ym mha safle y byddwn.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad a llongyfarch y pwyllgor am ei waith caled.

7. **Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**
Trafodwyd y canlynol:

- Cyllideb ar gyfer gwariant ar y caeau chwarae.
- Ystyried offer ychwanegol ar gyfer y caeau chwarae.
- Adolygwyd y gyllideb ac fe'i addaswyd fel yn briodol.
- Penderfynwyd adolygu cynnwys ein gwefan i weld beth sydd angen ei dynnu ffwrdd a beth sydd angen ei ychwanegu.
- Yr aelodau i edrych ar ein polisi grant ar gyfer mudiadau, gan nad yw wedi ei adolygu ers peth amser.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

# Hogyn Lleol yn Magu'r Gymraeg Dramor

Ar adeg pan mae cymaint o gynefinoedd y Gymraeg o dan fygythiad cynyddol, ysbrydoledig yw darllen am ymrwymiad Cymry i ddyfodol eu hiaith a'u diwylliant ym mhedwar ban byd.

Mae *Iaith heb Ffiniau* yn rhoi darlun byw inni o fywydau 12 o deuluoedd sy'n magu eu plant yn Gymry mewn amrywiol leoliadau ledled y byd, gan gynnwys sawl gwlad yn Ewrop, Gogledd a De America, De Affrica, Asia, Awstralia a Seland Newydd.

Fel mae is-deitl y llyfr, 'Magu'r Gymraeg Dramor' yn ei awgrymu, mae pawb o'r teuluoedd yn byw dros y môr, gyda theulu o Ogledd Iwerddon felly yr unig un o Wledydd Prydain i gael eu cynnwys.

Mae'r holl wybodaeth wedi'i gasglu ynghyd gan olygydd y gyfrol, Sioned Erin Hughes, gyda phob pennod ar ffurf cwestiwn ac ateb, a'r holl atebion gan y rhieni yn eu geiriau eu hunain.

Mae'r teuluoedd yn amrywio'n helaeth o ran eu cefndir Cymraeg. Yn y rhan fwyaf ohonynt, un rhiant yn unig sy'n siarad Cymraeg, neu sydd o gefndir Cymreig, tra bod rhai teuluoedd dau riant Cymraeg, ac un tad sengl, Wil Davies, sy'n magu plentyn chwe blwydd oed yn Seland Newydd.

Cafodd Wil Davies ei eni yn Nant Peris a mynychodd Ysgol Nant cyn symud i Glynnog a mynychu ysgolion Brynaerau a



Wil Davies a'i fab Twm

Dyffryn Nantlle. Dychwelodd i Lanberis yn 1969 i ffermio efo'i dad. Wedyn yn 21ain oed mi aeth i gneifio i Seland Newydd a syrthio mewn cariad efo'r lle, a symud yno'n barhaol yn 2007. Mae'n rhiant sengl i'w fab Twm sy'n 6 oed ac yn Gymro bach yn Seland Newydd.

Newyddiadurwr ar S4C oedd Siôn Pennar tan yn ddiweddar ond mae bellach yn byw yn Poznan yng Ngwlad Pwyl, cartref ei wraig, Gosia. Mae eu merch bum mlwydd oed Ola Gwenllian yn dairieithog mewn Cymraeg, Pwyleg a Saesneg. Ac yntau wedi cael magwraeth gwbl Gymraeg yn Eifionydd dywed nad oedd cwestiwn ynghylch yr iaith y byddai'n siarad gyda'i ferch.

Daw Esyllt Nest Roberts hefyd o gefndir trwyadl Gymraeg yn Eifionydd, a Chymraeg yw iaith ei theulu yn y Gaiman yn Patagonia. Mae ei gŵr Cristian yn hanu o deulu Cymreig yn y Wladfa, ac er mai ail iaith yw'r Gymraeg iddo, dyma'r iaith mae wedi ei siarad o'r cychwyn gyda Mabon ac Idris, eu meibion sydd




bellach yn 17 a 15 oed.

Ar y llaw arall, fel un o Gasnewydd yn wreiddiol, wnaeth Andrew Dixey ddim dysgu Cymraeg nes oedd yn oedolyn. Ac yntau bellach yn byw yn Slofacia, Cymraeg mae'n siarad bob amser gyda'i fab Matko.

Yn yr Alban y ganed Elinor Young, yn ferch i Albanwr a Chymraes, a dysgodd Gymraeg yn blentyn ar ôl i'r teulu symud i Gymru. Yn feddyg o ran galwedigaeth, mae hi bellach yn byw yn Capetown yn Ne Affrica, lle mae'n magu ei merch fach Isla Gwawr, gan gan ddilyn ôl troed ei rhieni wrth gynnal y Gymraeg ar aelwyd gymysg ei hiaith.

Mae'r llyfr hwn, yn ogystal â bod yn ddifyr i'w ddarllen, yn haeddu sylw arbennig gan unrhyw rai sy'n ymwneud â hyrwyddo'r iaith yng Nghymru. Gyda phwyslais cynyddol ar drosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref fel ffactor allweddol wrth gaffael iaith, mae pob un o'r teuluoedd hyn yn cynnig astudiaethau achos gwerthfawr i bawb sy'n gweithio yn y maes.

Un o gryfderau mawr y llyfr yw ei onestrwydd. Does ynddo ddim rhamantu na hunan-dwyll ei bod yn hawdd magu plant i siarad Cymraeg, ac mae amryw o rieni, yn enwedig rhieni'r plant lleiaf, yn mynegi pryder am y graddau y byddant yn dal gafael ar yr iaith a'i defnyddio wrth iddynt fynd yn hŷn.

Er bod technoleg yn cynnig cyfleoedd i ymestyn ffiniau'r Gymraeg ymhellach nag erioed o'r blaen, un thema gyson gan lawer o'r teuluoedd ydi nad oes digon o ddarpariaeth S4C ar gael dramor. Dyma fater sydd angen mynd i'r afael ag ef ar fyrder.

I gloi, mae'r gyfrol hon yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu gwell dealltwriaeth yn ein mysg at ein cyd-Gymry sy'n byw dramor. Dros y blynyddoedd, rydym wedi symud ymlaen yn sylweddol oddi wrth y ddelwedd sentimental a oedd yn cael ei chreu gan hen seremoni'r Cymry ar Wasgar yn yr Eisteddfod. Gwaeth hyd yn oed na'r ddelwedd honno, fodd bynnag, oedd canlyniadau'r adwaith negyddol iddi – sef rhyw fath o feddylfryd ymysg rhai nad oedd unrhyw Gymreictod y tu allan i ffiniau Cymru'n dda i ddim.


Mae'r gyfrol hon yn llwyr wrthbrofi unrhyw feddylfryd o'r fath ac yn ein hatgoffa bod y diaspora Cymraeg yn fyw ac yn iach ar bum cyfandir. A'i fod yn haeddu pob cefnogaeth a chydnabyddiaeth o'r cyfraniad gwerthfawr sydd ganddo i'w wneud i ddyfodol ein cenedl.

**Huw Prys Jones**




## Ffarwel i'r Gwenoliaid

Ar antur dônt i'r unto,
A'u brys yn rhybudd i'n bro;
Arwydd o frad ymadael
Am wlad well o'm haelwyd wael;
Cywion mân a'u cwyno maith
Fu yno'n crefu unwaith.
A'u galwad croch o'u gwely,
Nodau taer o fondo tŷ;
Ond heno rhyw suo sydd
Yn llenwi'r oriau llonydd.
**Tony Elliott**



# Ar ben arall i'r lein


Ble mae'r amser yma yn mynd tybed? 'Tydi o yn fflio heibio? Fel mae llawer i un yn dweud wrthyf, pan mae gan rhywun ddigon i wneud mae amser yn hedfan heibio yn gynt o lawer. A chyn belled a mae'r byd pysgota yn y cwestiwn mae gormodedd i'w wneud o gwmpas yr hen le 'ma. Ond mewn difri mae eisiau pendroni ar y cwestiwn - a oes dyfodol i enweiro yn Nyffryn Peris a dalgylch y Seiont?

Yndi, mae aelodaeth y gymdeithas ar i fyny ac mae gwerthiant tocynnau dyddiol eleni y gorau ers blynyddoedd lawer. Mae ein llety hunan-gynhaliol ym Mhontllyfni wedi bod yn brysur yn ystod misoedd y gwyliau, ac mae teulu eisoes wedi cymryd y lle dros wyliau y nadolig. Yndi mae hyn i gyd yn hwb mawr i bysgotwyr y fro, gan fod y llif arian yma wedi golygu nad oes newid wedi bod mewn tâl aelodaeth ers 14 mlynedd. Yr unig newid ariannol yw fod codiad bach wedi bod ym mhris tocynnau dyddiol. Does dim dwywaith bod y fenter yn Llyn y Dywarchen yn fagnet mawr i'r gwerthiant. Mae ein diolch yn enfawr i'r criw bach sy'n gofalu am y stocio a chadw llygad ar y lle.

Mae llwyddiant Dywarchen yn adlewyrchiad o be sy'n digwydd drwy Gymru a Lloegr, sef bod pysgotwyr yn troi eu cefnau ar ein afonydd a throi at ddull o bysgota ble mae cyfle da i gael rhywbeth ar 'ben arall i'r lein'. Mae hyn yn digwydd drwy ddifaterwch ein cyrff stadudol, sydd i fod i warchod a datblygu ein pysgodfeydd. Drwy eu hesgeulusdod mae pysgodfeydd afonydd, a oedd drwy yr eog a gwyniadau yn atyniad mawr, yn brysur gael eu hysgubo i un ochr drwy reolau yn ein gwahardd rhag mynd ag eog neu wyniedyn go safonol gartref am brydun blasus. Y rhesymeg wrth gwrs yw fod niferoedd y pysg yma wedi dirywio fel bod perygl i'w dyfodol, wrth gwrs y ni fel pysgotwyr sy'n gyfrifol am y dirywiad yma i gyd. O, na does dim beirniadu na gweithredu am y llygredd sy'n llifo yn ddyddiol i'n dyfroedd, y potsio sydd fel epidemig drwy'r wlad, hefyd y nifer o adar bwyta pysgod sydd yn cynyddu yn flynyddol drwy'r fro.







Eog 6 pwys Ian Williams



Eog Stuart Woodward





Torgoch Cwellyn Harvey Lord a Alun George

Mae pob un *cormorant* eisiau dau bwys a phob un *goosander* eisiau tri chwarter pwys o bysgod at eu cynnal yn ddyddiol. Mae pedwar *cormorant* wedi cartrefu eu hunain ar Lyn Padarn a'r diwrnod o'r blaen cyfrais 13 *goosander* uwchben Pont Crawia. Cyfanswm eu bwydlen dyddiol yw 17.75 pwys o bysgod. Oes gan rhywun ateb neu sylwad ar hyn tybed?

Drwy gysidro 'mhellach ar y pedwar mulfran sy'n gartrefol ar Padarn, be' yw eu dewis o bysgod tybed? Mae'n rhaid mai'r brithyll, torgoch ac eogiad sydd ar ei bwydlen, gan fod y nifer o'r draenogiad yn cynyddu ar garlam, mae'n rhaid fod rhain ddim at ddant yr ysglyfaethod pluog 'ma.

Dyma ddigon o bregethu, mi ddo'i oddi ar y bocs sebon am rwan a throi at y pysgota. Sut mae hi wedi bod yn gyffredinol eleni? Wel wrth gwrs y seren unwaith eto yw Dywarchen sydd wedi bod yn ardderchog, Unwaith eto tydw i ddim am enwi y 'sgotwrs llwyddiannus heblaw Dr Robin Parry oherwydd y defnydd gafodd ei wneud ag un helfa. Mae'r lluniau yn dangos rhai o'i frithyll yn cael eu bwydo i dîm buddugol yr Eidal yn Râs y Wyddfa eleni.

Mae'n wybodaeth gyffredinol o gwmpas y lle fod nifer fawr o eogiad a gwyniadau ar hyd y Fenai. Dyma brawf i chi – tarwch olwg ar dudalen *Facebook* sgll.co.uk i weld criw o ddolffiniaid yn hela'r eog a gwyniadau ar gyrion Traeth Bach, Caernarfon. Ble oedd pen taith y pysgod mudol yma tybed – y Seiont neu'r Gwyfai? Buan iawn y daeth yr ateb o Crawia gan Ian Williams, Llanberis a Glan Gwna gan Stuart Woodward, Ceunant.

Mae rhyw amheuaeth hefyd fod rhyw eog neu ddau go drwm wedi eu bachu a'u colli yn y Seston Fawr a Phwll Fôn ar gwastad Cwm. 'Sgwn i os y buasai'n well iddo ganolbwyntio ar Dywarchen, mae i weld yn cael mwy o lwc yno!

Y cwestiwn yn dilyn maint yr helfa siomedig yma ydi ble mae'r gweddill oedd yn y Fenai wedi mynd? Cefais yr ateb yn ddigon buan wrth fynd i chwilio am dorgoch ar Padarn. Mi fydda'i yn defnyddio darganfyddwr pysgod ar y gwch ac mae rhai yn dweud fod hyn yn anfoesol, gwnewch be y mynnoch o hynny, ond i mi mae yn ran bwysig o ddysgu am wely'r dyfroedd, maint y stoc ac i ble mae haint y chwyn yn ymledu. Ond y wybodaeth bwysicach a gefais ganol Awst oedd y nifer o bysgod mawr oedd wedi rhedeg i'r llyn, Dwi'n defnyddio darganfyddwr ers dros ugain mlynedd, a dyma'r nifer fwyaf o bysgod mawr 'rwyf wedi weld yno dros yr holl flynyddoedd.

Mae nhw yn rhy fawr i fod yn frithyll, felly does dim dwywaith mai eog a gwyniadau mawr ydynt. Cadwch lygiad ar Nant Peris a Penllyn pan ddaw'r amser bwrw grawn sef Tachwedd a Rhagfyr, cawn weld gyda sicrwydd amser hynny. Efallai eich bod am ofyn "gefaist ti dorgoch" wel naddo ydi'r ateb, ond llond bag o'r hen ddraenogiaid 'na.

Daeth gwers arall inni unwaith eto gan y ddau ddaeth o ardal y llynnoedd tymor diwethaf i drio Padarn gyda gêr draddiadol ardal y llynnoedd. Do fe gawsom wers! Eleni fe ddaeth y ddau i drio Cwellyn, do unwaith eto fe gafwyd wers. Dyma rai o luniau torgoch Cwellyn at eich sylw. Arbennig yn de.

Troi'n ôl at fy sylwad agoriadol, sef a oes dyfodol i enweirio yn y fro? Yndi mae'n galonogol gweld nifer o'r criw ifanc sy'n mynychu Dywarchen ac i lawr Crawia, daliwch ati, ond cofiwch mae eisiau cefnogi'r gymdeithas oherwydd chi yw'r dyfodol a heb y gefnogaeth yma pwy a wŷr i ddwylo pwy ddisgynith ein hawliau, pan fyddwn ni yr hen griw wedi hen fynd.

I drio hywyddo mwy ar hyn, gobeithir cynnal rhyw ddigwyddiadau cyflwyno 'sgota o gwmpas y fro dros y misoedd nesaf, wel os bydd cefnogaeth at drefnu ar gael yn 'de!

**Huw Price Hughes**

# Garddio

## HYDREF

Mae'r haf wedi diflannu'n gyflym. Bu'n oerach a mwy gwyntog nag arfer yma, ond mae De Lloegr a chyfandir Ewrop wedi gweld tymhereddau hynod o boeth os nad yn grasboeth.  Gobeithio y cawn ni hydref mwyn fydd yn torri'r gaeaf. Mae'r dail yn disgyn oddi ar y coed ers ddiwedd mis Awst ac mae llwyth o aeron a ffrwythau i'w gweld hyd pob math o lwyni a choed, sydd heb orfod delio efo sychder eleni.  Mae yna ryw dda yn dod o bopeth.

**Compost a deilbridd**

Peidiwch a gwastraffu gwastraff yr ardd.  Mae compost cartref yn well na beth brywnch chi mewn bagiau plastig yn y ganolfan arddio lleol. Y rheol aur yw cael cyd-bwysedd rhwng gwastraff sych neu frown efo gwastraff meddal neu wlyb, sef gwyrdd.  Mae gwair o'r lawnt, tyfiant ifanc a chwyn yn wyrdd, tra bo coesau hŷn mwy prenaidd, planhigion blwyddol sydd wedi chwythu eu plwc a dail yr hydref yn wastraff brown.  Gallwch hefyd ychwanegu pethau o'r cartref megis bagiau te, gwaddodion coffi, croen ffrwythau neu lysiau, papur, cardfwrdd ac amlenni (nid rhai sgleiniog) a hen ddillad o wlân pur neu gotwm wedi eu torri'n fân. Peidiwch ag ychwanegu bwyd wedi ei goginio na sbarion cig, rhag denu llygod mawr i'ch gardd.  Gallwch brynu cychwynnw (*activator*) i gyflymu'r broses, os ydach chi'n ddi-fynadd fel fi, neu ychwanegu beth sydd wrth law, e.e. tail ceffyl neu wartheg, dail danadl poethion neu cyfardwf (*comfrey)*.  Dydw i ddim wedi trio ychwanegu pi-pi i'r compost, ond yn ôl pob sôn mae dŵr dynol wedi cael ei ddefnyddio fel cwrtaith ers canrifoedd, gan ei fod yn uchel mewn nitrogen a photasiwm a ffosfforus.  Eich dewis chi yw os ydach chi am fentro ei ychwanegu at eich compost neu beidio…  Ffordd arall i gyflymu'r broses yw troi'r gymysgedd yn achlysurol.  Bydd hynny'n ychwanegu aer ac felly'n codi'r dymheredd ac felly'n cyflymu'r broses o gompostio. Yr anfantais yw bod angen digon o amser arnoch i wneud hyn.  Cofiwch os oes rywbeth ar ôl gallwch chi ei adnabod pan fydd eich compost yn barod, gallwch ei ychwanegu at domen gompost y flwyddyn ganlynol.

Gallwch greu deilbridd mewn cynhwysydd heb caead wedi ei greu





o rwyd a phostiau yn hawdd, neu sachau hesian, gan gofio cadw'r dail yn wlyb.  Hen focs ail-gylchu efo rhwyd dros y top fydda i'n ei ddefnyddio ac mi ydw i wedi dysgu bod dail aeth drwy'r peiriant torri gwair neu'r hŵfer dail yn dad-elfennu'n gynt.  Mae'n cymryd tua dwy flynedd (neu fwy) cyn y gallwch ei ddefnyddio.  Bydd deilbridd fel taenfa *(mulch)* yn gwella'r pridd a gwarchod eich planhigion dros fisoedd hir ac oer y gaeaf.  Gallwch ddefnyddio deilbridd dyflwydd oed i hau hadau, fel ag y mae o, neu wedi ei gymysgu hanner yn hanner efo tywod graeanog (sharp sand) cyfrwng perffaith ar gyfer tyfu hadau. Does dim angen tomenni a biniau anferthol i greu compost.   Troellwr bach sydd gen i, dydy o ddim yn creu lot ond mae'n ychwanegu at y compost fyddai'n ei brynu o'r ganolfan arddio tra bo planhigion mewn llefydd cysgodol yn yr ardd yn swatio dan y deilbridd wnes i rai blynyddoedd yn ôl.

**Plannu bylbiau**

Cofiwch ddyfrio'r bylbiau blannwyd ddechrau mis Medi ar gyfer harddu'r tŷ erbyn y Nadolig. Mi dyfais yr hyacinth i gyd efo'i gilydd llynedd yn unol â chyngor ar y rhaglen deledu *'Gardener's World'* ar BBC 2.  Roedd lot o wreiddiau wedi ffurfio o fewn y bocs, a bu'n rhaid i mi chwalu lot ohonynt wrth eu trawsblannu. Ond daeth y blodau o fewn y potiau i'r un maint a'r un pryd.  Felly mi oeddan nhw'n anrhegion Nadolig gwell llynedd.  Dydw i ddim am blannu cennin pedr ('*Paper White*') eleni, oherwydd am ryw reswm dydw i'n cael dim hwyl arnynt, lot o ddail a choesau hir a fawr o flodau a dydw i ddim yn or-hoff o'r arogl arnynt chwaith.

Peidiwch a phoeni os na lwyddoch i blannu bylbiau ym mis Medi. Plannwch nhw rwan, ym mis Hydref. Bydd y pridd yn dal yn gynnes ac fe gewch sioe dda o flodau yn yr ardd yn y gwanwyn, a sioe yn y ty, er na fyddant yn barod erbyn y Nadolig. Dwi'n teimlo weithiau bod angen mwy o liw yn y flwyddyn newydd, ar ôl cadw'r addurniadau a'r *goleuadau* yn llymder mis Ionawr.   Gobeithiaf blannu bylbiau cennin pedr bach - *Tête á Tête* a *Species Narcissus* wrth ochr y tŷ, y naill gan mai dim ond 20cm o daldra fyddan nhw a'r llall oherwydd eu bod yn blodeuo'n gynnar ym mis Ionawr.  Cawn weld, mae hi wastad yn hwyrach ar bopeth yma, ac mi ydw i'n gobeithio gwnawn nhw oroesi, gan amau'n gryf bod dail y rhai oedd yn arfer tyfu'n yr un lle wedi cael eu bwyta gan ddefaid!

Chefais i ddim blodau ar y '*nerines*' acw llynedd ym mis Hydref/ Tachwedd.  Maent yn llawn dail felly maent wedi cael aros am eleni, amser a ddengys os ga'i flodau neu a fyddant yn y bin brown neu'n cael eu hychwanegu i'r domen gompost erbyn diwedd y flwyddyn!

**Lloffa neu fforio (*forage*)**

Ym mis Hydref caf bleser yn casglu beth allai o'r gweirgloddiau a mwynhau'r dail crin yn crensian dan fy nhraed ar yr un pryd. Yr erwain oedd brenhines y weirglodd, ond y mwyar duon a'r eirin duon bach yw'r brenhinesau ym mis Medi a Hydref.  Y naill wedi eu casglu fesul rhyw bwys neu ddau a'u storio'n ddiogel yn y rhewgell, yn barod i wneud jeli (fedrai ddim dioddef yr holl hadau mewn jam mwyar) a'r gweddill yn cael eu troi'n ddantaith ar gyfer misoedd oer y gaeaf.  Mae '*gin*' eirin perthi (*sloe gin*) yn hyfryd - bydd hanner cilo o eirin yn ddigon i roi blas hyfryd ar ddwy litr o gin (y rhataf gallwch ei gael). Golchwch yr eirin, sticiwch bren coctêl  neu sgiwar (*skewer*) ym mhob un a throsglwyddwch yr eirin a'r gin ynghyd â 250g o siwgr i fewn i jar Kilner.  Os ydach chi'n ddi-fynadd, fel fi, rhowch y ffrwyth yn y rhewgell am ddiwrnod neu ddau a fyddwch chi ddim angen gwneud tyllau ynddyn nhw! Cofiwch ysgwyd y trwyth, bob hyn a hyn (bob dydd am yr wythnos gyntaf).  Gwirod ychydig yn sur a chynhesol, wnaiff anrheg Nadolig hyfryd.  Mae'n gwella o flwyddyn i flwyddyn, meddan nhw.

Mae mis Hydref hefyd yn adeg da i gasglu madarch a ffyngau.  Un nodyn o rybudd fodd bynnag, os



nad ydach chi'n hollol siwr o beth ydach chi wedi ei gasglu, peidiwch a'i fwyta fo! Mae'r Penny Bun (*cep* yn Ffrainc a *porcini* yn yr Eidal) yn tyfu acw ym môn coedan wrth ymyl y tŷ. Maent yn ymwthio o'r pridd tua 8 diwrnod ar ôl iddi fwrw os nad yw'n rhy oer!

Yn anad dim, mae bod allan yr awyr iach, yn gwylio natur yn falm i'r enaid ac yn llesol i'ch iechyd meddwl.

**Cyffredinol**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn chwynnu a chlirio llwybrau i'w cadw'n daclus dros y gaeaf a rhag i chithau lithro os bydd rhew ymhellach ymlaen.  Mae mwsog yn tyfu'n dda yma, felly mi fyddai'n ei frwsio/grafu oddi ar y llwybrau bob cyfle gai.

Cofiwch ddod a'ch planhigion tŷ, fu ar eu gwyliau yn yr ardd dros yr haf, yn ôl i'r tŷ.  Byddwch ofalus, dydach chi ddim am gael malwod, gwlithod na'r Teiliwr Tala' (*daddy long legs*) yn y tŷ, felly archwiliwch bob planhigyn a daliwr yn ofalus.

Gwnewch amser i fynd o gwmpas yr ardd gan ystyried beth sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd ddim cystal neu wedi methu. Dwi eisoes wedi symud ambell i beth i botyn, fel mod i'n gallu eu symud i'r haul flwyddyn nesaf, ac wedi symud ambell i beth i forder sy'n fwy heulog!  Oedd bylchau yn eich borderi ar gyfnodau?  Beth allwch chi blannu i roi mwy o liw ar rai adegau o'r flwyddyn?  Gwnewch nodyn rŵan o beth sydd angen ei wneud i greu gardd fwy diddorol yn 2025.  Dwi angen rhywbeth i roi mwy o liw ym misoedd Mehefin a Gorffennaf, felly nodyn yn nyddiadur amdani.

Glanhewch a hogwch eich offer gardd, mae popeth mor ddrud fel bod angen cadw popeth sydd gennych, mewn trefn i'r blynyddoedd a ddaw.  Golchwch unrhyw botiau fyddwch chi'n eu hail-ddefnyddio'r flwyddyn nesaf, ac ail-gylchwch unrhyw rai nad ydach yn debygol o'u defnyddio i'r dyfodol.  Fel mae planhigion yn darfod, cliriwch y cansenni a dalwyr o'r ardd.  Tynnwch nhw o'r pridd, sychwch neu golchwch unrhyw bridd sydd arnynt a gadwch iddynt sychu, cyn eu storio mewn sied neu garej. Arbed arian ac arbed y blaned!

*Rhosyn Mynydd*

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol,
Bro Eco'r Wyddfa.

chwilota.wordpress.com

# Trol Datws a dyn-laddiad

Claddwyd Rice Williams o Dyddyn Andrew ym mynwent Llanddeiniolen ar yr 22ain o fis Tachwedd 1867. Yn achlysurol mae'r Rheithor neu'r Ciwrat yn nodi achos y farwolaeth, ond nid y tro hwn. Mae'n ddigon cyffredin yng Nghofrestrau Claddu plwyfi'r fro weld "lladdwyd mewn damwain yn y chwarel" yn cael ei ysgrifennu ar ymyl y ddalen. Syndod felly yw'r ffaith na roddir unrhyw sylw i achos marwolaeth Rice Williams, oherwydd bu farw o ganlyniad i ymosodiad arno gan dri o lafnau ifanc a arweiniodd at achos llys.

O astudio Cyfrifiad 1861 cawn wybod mai brodor o Feddgelert oedd Rice Williams, wedi ei eni tua 1804. Roedd yn ffermio 36 acer yn Nhyddyn Andrew, ac yn amlwg yn tyfu tatws o'r wybodaeth a roddwyd yn ddiweddarch yn yr achos llys. Nid yw'r adroddiadau yn y newyddiaduron am yr hyn ddigwyddodd yn hollol gytbwys – mae'r cartref ambell dro yn cael ei enwi fel Tyddyn Hendre, a'i enw yntau'n amrywio o Rice i Rees. Ond yn fras, dyma'r hyn ddigwyddodd.

Ar y pedwerydd o Dachwedd roedd Rice Williams wedi bod a llond trol o datws i Lanrug. Roedd ei drol yn wag yn dychwelyd, ar wahân i fwndel o sachau yn y trwmbal. Rywle ar y ffordd yn ôl gwelodd dri o lafnau ifanc yn cerdded. Gwaeddodd un ohonynt arno a gofyn a fyddent yn cael eu cario yn y drol wag. Er ei fod yn anfoddog i wneud hynny oherwydd fod y tri braidd yn feddw, rhoddodd ganiatad iddynt ddringo i'r drol ar yr amod eu bod yn bihafio. Ond o fewn ychydig roedd dau ohonynt wedi dechrau 'ymladd' ei gilydd gyda'r sachau gwag. Rhoddodd Rice Williams orchymyn i'r tri i ddod allan o'r drol. Er iddynt ufuddhau, dechreuodd y ddau oedd yn 'ymladd', dynnu ar gefn y drol nes peri i'r ceffyl anesmwytho ac achosi iddo gael ei daro gan y llorpiau. Defnyddiodd Rice Williams ei chwip i geisio eu hatal, ond dechreuodd y llafnau daflu cerrig ato, a chafodd ei daro yn ei dalcen nes ei fod yn gwaedu. Peidiodd yr ymosodiad.

Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw aeth Rice Williams i weld Dr Roberts yng Nghlwt y Bont. Dywedwyd wrtho ei fod wedi cracio asgwrn y benglog. Ymwelodd â'r meddyg deirgwaith wedyn yn ystod y bythefnos nesaf, ond roedd yr archoll i'w dalcen yn gwaethygu, ac er ymdrechion y meddyg, bu farw Rice Williams ar ddydd Sul, yr ail ar bymtheg o'r mis. Yr hyn sy'n ddryslyd yw'r ffaith fod un adroddiad yn honni fod Rice Williams *"wedi gwrthod pob cyngor meddygol".* Mae'n debyg mai'n fuan wedi'r farwolaeth y daethpwyd ag achos o ddyn-laddiad yn erbyn y llafnau – er fod un adroddiad yn nodi fod y tri wedi cael eu hanfon i ymweld â Rice Williams cyn ei farw. A'i mynd o'i gwirfodd wnaethant yntau a oedd yr heddlu eisoes yn ymchwilio i'r ymosodiad? Yn ystod yr ymweliad tystiodd Rice Williams mai Daniel Ellis Williams oedd yr un a'i tarodd gyda charreg, ond fod Thomas Roberts hefyd yn lluchio cerrig ato. Tystiodd hefyd nad oedd William Samuel Roberts, y trydydd llefnyn wedi taflu cerrig, ond iddo ddod ato i geisio'i gynorthwyo, a'i fod wedi bod o gymorth iddo yn dilyn yr ymosodiad.

Gwysiwyd y tri i ymddangos yn y llys yng Nghaernarfon y bore wedi claddedigaeth Rice Williams ym mynwent Llanddeiniolen. Nid oedd gan yr un o'r tri enw da iawn yn y gymdogaeth. Gollyngwyd yr achos yn erbyn William Samuel Roberts am nad oedd wedi cymryd rhan o gwbl yn yr ymosodiad. Adroddodd yr heddlu fod Thomas Roberts yn absennol oherwydd ei fod wedi dianc i'r America! Mae adroddiadau eraill yn dweud ei fod wedi gadael yr ardal er mwyn osgoi'r achos. Daethpwyd ag achos o ddyn-laddiad yn erbyn Daniel Ellis Williams, ond ni chafodd ei gadw yn y ddalfa, ond ei ryddhau ar fechniaeth.

O fewn wythnos i'r achos llys adroddwyd fod William Samuel Roberts wedi ymosod ar chwarelwr mewn tafarn. Ni chaiff y chwarelwr na'r dafarn eu henwi. Ond honnir fod Daniel Ellis Williams yn bresennol ac yn gwylio'r ymosodiad. Wythnos ynghynt y cafodd ei ryddhau ar fechniaeth!

A dyna ddiwedd yr hanes. Methais a darganfod unrhyw adroddiad mewn unrhyw newyddiadur am pryd y safodd Daniel Ells Williams o flaen ei well i wynebu achos o ddyn-laddiad. Nid yw cofnodion llys 1867 nac 1868 wedi eu catalogio yn Archifdy Caernarfon, ond cefais olwg ar y gwreiddiol, ac nid oes cyfeiriad o gwbl ar ddiwedd 1867 nac yn ystod 1868 at achos o ddyn-laddiad; yn wir, prin yw'r achosion a wrandawyd – ambell achos o ddwyn ac achos hir ynglŷn â chwarel lechi yn Nhalysarn.

Anodd hefyd oedd darganfod pwy yn union oedd y tri llanc. Yr oedd llanc o'r enw Daniel Ellis Williams yn byw yng Nghae'r Bythod, ger Goeslon Racca, yn 1851 ac 1861, mab Ellis a Laura Williams. Yr oedd ganddynt ddeg o blant yn byw gartref yn 1851 a Daniel oedd yr ieuengaf. Erbyn 1871, gwta bedair blynedd wedi'r dyn-laddiad, roedd Laura yn wraig weddw, a dim ond David Ellis Williams (brawd hŷn Daniel) a'i deulu ifanc oedd yn byw yn y cartref. Os mai y Daniel hwn a gyhuddwyd o daflu cerrig ac achosi marwolaeth Rice Williams, Tyddyn Andrew, roedd posbilrwydd fod ei gyfoedion hefyd yn dod o'r un ardal. Aethpwyd ati i chwilio'r ardal am lanciau ifanc o'r enw William Samuel Roberts a Thomas Roberts, a darganfod y canlynol: ym Mlaen y Waen, ger Celyn (yr un ardal a Chae'r Bythod), roedd William Roberts yn 15 oed yn 1861, ac felly tua ugain oed pan ddigwyddodd yr ymosodiad. Enw ei dad oedd Samuel Roberts, ac felly, yn ôl trefn yr oes, cai ei adnabod fel William Samuel. Yn yr un ardal hefyd roedd Thomas Roberts yn byw yn Bryn Rhydd (rhwng Penisarwaun a Racca) yn 1861. Byddai tua deunaw neu bedair ar bymtheg oed adeg yr ymosodiad. Hwn oedd yr un yr honnid ei fod wedi dianc i'r America.

A dyna ddiwedd yr hanes – hyd yma. Does dim sicrwydd mai'r tri llanc ifanc o'r ardal rhwng Penisarwaun a Chlwt y Bont oedd yn gyfrifol am yr ymosodiad ar Rice Williams yn ei drol cario tatws. Ond mae'n syndod nad oes cyfeiriad o gwbl am Daniel Ellis Williams yn sefyll ei brawf, ac yntau wedi ei ryddhau ar fechniaeth. Tybed, tybed a ddilynodd yntau Thomas Roberts i'r America?

Os oes gan unrhyw un o'r darllenwyr wybodaeth am yr achos hwn, byddwn yn falch o glywed gennych. Gallwch gysylltu hefyd ynglŷn ac unrhyw agwedd o hanes bro'r "Eco" trwy anfon at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon LL554BA neu ffonio 01286673515 neu e-bostio dafydd.wthomas@btinternet.com






# Gemau Olympaidd Paris 2024

Ar Orffennaf 26ain, roedd llygaid y byd ar Paris a Seremoni Agoriadol Gemau Olympaidd 2024. Y rhain oedd Gemau Olympaidd rhif 33, a'r trydydd tro i Baris eu cynnal. Roedd athletwyr o bob cwr o'r byd wedi ymgynull yn y glaw ar gychod ar hyd afon Seine ar gyfer seremoni agoriadol gwahanol iawn i'r arfer a oedd yn gychwyn ar 16 diwrnod o bob math o chwaraeon.

Yn ffodus i mi, roeddwn wedi cael tocynnau i ambell gamp dros y pythefnos. Felly, wedi ychydig o ddyddiau o wylio'r campau ar y teledu roedd hi'n amser i mi a fy nhad deithio i Ffrainc i wylio'r Gemau. Ond nid ym Mharis roedd ein Gemau Olympaidd ni'n cychwyn, ond yn hytrach yn Ninas Saint–Etienne, rhyw 400 cilomedr o Baris.

Ein camp gyntaf oedd gêm grŵp pêl-droed dynion rhwng Unol Daleithau'r America a Guinea, gyda'r Unol Daleithau'n ennill y gêm o 3 gôl i 0. Taith ymhellach i lawr i'r de oedd hi'r diwrnod wedyn; lawr i ddinas Marseille am gêm bêl-droed arall, ond y tro hwn gêm yng ngrwpiau'r merched. Unwaith eto roeddem yn gwylio'r Unol Daleithau wrth iddynt wynebu Awstralia; a'r Americanwyr bellach yn cael eu rheoli gan gyn-reolwraig Merched Chelsea, Emma Hayes. Cawsom gêm wych, ac fel y



noson flaenorol, yr Unol Daleithau'n fuddugol, o 2 gôl i 1.


Taith wedyn i Baris i Le Golf National, safle'r golff ar gyfer y Gemau a lleoliad sydd wedi cynnal Cwpan Ryder yn y gorffennol. Diwrnod gwych a llawn dop yn gwylio rhai o olffwyr gorau'r byd. Yn eu mysg roedd Scottie Scheffler, Rory McIlroy, Tommy Fleetwood, John Rahm, Viktor Hovland a Wyndham Clark, dim ond ambell enw y cawsom y pleser o'u gweld yn ystod y diwrnod. Cwrs braf a digon o gerdded yn gwylio'r sêr gorau'n chwarae golff ar ddiwrnod cynnes braf. Hwn oedd yr ail o bedwar diwrnod y gystadleuaeth golff.

Wedi diwrnod o ymlacio a chrwydro golygfeydd Paris, lle roedd cyffro i'w weld ar hyd y ddinas oedd yn gartref i'r Gemau eleni, yn ôl â ni at y campau, ac unwaith eto i ffwrdd o Baris yr aethom ein dau gan ddal trên cynnar i Lille, ein lleoliad nesaf. Roedd atgofion melys iawn wrth i ni ddychwelyd i Lille: y tro diwethaf i mi fod yma, roedd tîm Chris Coleman yn creu gwyrthiau yn Ewro 2016.

Yn ôl i'r Stade Bollaert-Delelis oedd hi, ond chwaraeon gwahanol a champ newydd i mi – pêl fasged. Dwy gêm yng ngrwpiau'r merched; a thrwy lwc, unwaith eto, Gwlad Belg oedd yn chwaare yn Lille, yn erbyn Siapan. Gêm gyffrous, ond gyda nifer o'r dorf o Wlad Belg yn gwneud gwahaniaeth mawr, a'r Belgiaid yn ennill o 85 i 58.

Roedd yr ail gêm yn fwy cyffrous, rhwng Canada a Nigeria. Dim ond 4 pwynt oedd ynddi wedi'r ddau chwarter cyntaf. Ond Nigeria yn llwyr reoli'r trydydd chwarter ac yn cadw'r fantais hyd y diwedd, gan ennill y gêm o 79 pwynt i 70. Taith nôl i Baris wedyn ac edrych ymlaen at ein camp olaf.

Y diwrnod olaf, a draw i'r Stade de France i wylio'r athletau. Am noson a phrofiad oedd hi yn y Stadiwm gyda noson llawn cyffro! Cawsom wylio ras 3,000 medr ffôs a pherth i ddynion, rasys 200 medr dynion a merched gan



# Pennod Newydd Cymru

Do, ym mis Medi fe ddechreuodd pennod newydd tîm pêl-droed Cymru, gyda Craig Bellamy wrth y llyw am y tro cyntaf ers iddo gael ei apwyntio fel y rheolwr newydd ym mis Gorffennaf. Twrci oedd y gwrthwynebwyr cyntaf, â'r gêm honno'n cael ei chynnal yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

Roedd cyffro, a phawb yn edrych ymlaen i weld sut fyddai Craig Bellamy yn gwneud ar ei brawf cyntaf. Mi oedd Twrci yn wrthwynebwyr cyntaf anodd, wedi cyrraedd rownd yr 8 olaf yng nghystadleuaeth yr Ewros yn ystod yr haf. Gyda'r glaw'n disgyn yn drwm yng Nghaerdydd, doedd hi ddim yn bwrw goliau yn anffodus. Fe orffennodd y gêm yn ddi-sgôr. Serch hynny, fe ddangoswyd gobaith am y dyfodol gydag awgrym o gyfnod cyffrous o'n blaenau.

Fe gychwynnodd Cymru ar y droed flaen o'r eiliad cyntaf, ac roedd arddull chwarae ymosodol Bellamy yn amlwg. Doedd Cymru'n sicr ddim am eistedd yn nôl. Cafwyd cyfleoedd sydyn i Gymru ar y dechrau, gydag Aaron Ramsey a Joe Rodon yn methu manteisio. Fe gafodd Sorba Thomas ychydig bach mwy o lwc gan iddo roi'r bêl yng nghefn y rhwyd, ond fe gododd y llumanwr ei fflag i nodi camsefyll. Roedd Cymru dal ar y droed flaen yn yr ail hanner: Harry Wilson y tro yma'n cael cyfle euraidd wrth iddo gymryd cic rydd aeth heibio'r postyn o drwch blewyn.

Aeth pethau'n ddrwg i'r ymwelwyr wrth i Yilmaz dderbyn ail gerdyn melyn a chael ei anfon oddi ar y cae. Ond er eu bod dan bwysau, fe wnaethant oresgyn unrhyw fygythiad gan Gymru; ac yn anffodus, ni chafwyd gôl. Er na chafodd Cymru fuddugoliaeth, roedd positifrwydd wedi ei ddangos, ac roedd yn amlwg beth fydd gweledigaeth Craig Bellamy fel rheolwr. Roedd Cymru fel tîm hollol wahanol i'r hyn â welsom o dan arweiniad Rob Page yn ddiweddar. Pasio cyflym a slic, a wastad yn rhoi pwysau ar eu gwrthwynebwyr. Cychwyn cadarnhaol i yrfa Craig Bellamy fel rheolwr newydd Cymru.

Ymlaen felly i Niksic i chwarae yn erbyn Montenegro. Roedd cwestiwn os y byddai gêm o gwbl oherwydd y glaw trwm iawn, di-stop yn y brifddinas Podgorica a'r cyffiniau. Yn Podgorica oedd y gêm i fod, ond bu'n rhaid newid y lleoliad ychydig ddyddiau'n gynharach oherwydd safon y cae. Yn ffodus, cafwyd gêm ond ni fu stop i'r glaw! Yn ffodus i gefnogwyr Cymru, roedd to uwch ein pennau – yn wahanol i rai o gefnogwyr y tîm cartref oedd yr ochr arall i'r cae yng nghanol y glaw!




Er y glaw trwm a'r amodau gwael ar y cae, fe gychwynnodd Cymru ar dân! Cyn i funud fynd heibio, roedd Cymru ar y blaen wrth i Kieffer Moore ddod o hyd i gefn y rhwyd. Cyn i'r cefnogwyr gael amser i orffen dathlu'r gôl, fe ddaeth un arall bron yn syth wrth i Harry Wilson sgorio gôl anhygoel o fewn dau funud wedyn. Wrth i'r gêm barhau ac i'r glaw ddymchwel roedd cyflwr y cae yn mynd o ddrwg i waeth. Mae'n syndod fod y gêm wedi mynd ymlaen am 90 munud! Fe ddaeth Montenegro yn agos i sgorio yn yr hanner cyntaf: capten y tîm yn ceisio ei lwc o hanner ffordd am iddo weld fod golwr Cymru, Karl Darlow, allan o'i focs. Bu iddo daro'r postyn, a Chymru felly wedi cael rhybudd nad oedd Montenegro am roi fyny. Mi fu raid i Ben Davies ddod i'r adwy a gwneud arbediad ar y llinell ar ôl i Darlow wneud arbediad gwych.

Fe fethodd Cymru ag adeiladu ar eu mantais, er bod sawl cyfle wedi dod. Roedd hi'n mynd yn anoddach fyth i chwarae o dan yr amodau, ond fe gymerodd Montenegro fantais o hyn gan sgorio gôl a oedd, chwarae teg, yn haeddiannol iawn. Wrth i'r gêm ddod i'w therfyn, roedd yna ryddhad i Gymru lwyddo i fynd adref â thri phwynt – a rhyddhad dwi'n siwr i fynd o'r glaw!

Pedwar pwynt, felly, i dîm Craig Bellamy hyd yma, gyda pherfformiadau cadarnhaol iawn. Mi fydd yna gyffro ar gyfer gweddill yr ymgyrch cyn mynd ati i droi gorwelion at gemau rhag-brofol Cwpan y Byd 2026. Ond nesaf yng Nghynghrair y Cenhedloedd ym mis Hydref, mi fydd Cymru'n wynebu Gwlad yr Iâ oddi cartref ac yna Montenegro gartref.

**Mared Rhys Jones**




gynnwys y pencampwr 100 medr Noah Lyles, y ddisgen a ffeinal ras 800 medr i ferched gyda Keeley Hodgkinson o Brydain yn cipio'r aur. Ond heb os, uchafbwynt y noson oedd y Pole Vault i ddynion, pan gipiodd Armand Duplantis o Sweden y fedal aur yn hawdd. Fe dorrodd y record Olympaidd; yna trio torri record y byd wedyn. Wedi iddo fethu ar ei ddau gynnig cyntaf, ar y trydydd tro fe lwyddodd Duplantis i fynd dros y bar a thorri record y byd, a'r record newydd yn 6 medr, 25cm. Roedd y Stadiwm yn fyddarol wedi i'r gŵr o Sweden dorri'r record.

Roedd yr athletau yn cloi ein taith Olympaidd ni ac yn uchafbwynt hefyd. Am wythnos a phrofiad gwych! Cyn mynd adref, roedd cyfle i weld y Fflam Olympaidd yng nghanol Paris. Profiad y byddaf fi a Dad yn ei gofio am byth.

**Elgan Rhys Jones**

# Dal i redeg...



Bu cymaint o wahanol rasys mewn cymaint o wahanol leoliadau, yma yng Nghymru a thramor, fel mai anodd iawn cadw i fyny â llwyddiannau gwahanol redwyr y fro dros y deufis diwethaf. Ond dyma roi cynnig arni – gydag ymddiheuriadau os methwyd â chofnodi llwyddiannau pawb.

**Rasys ffyrdd**

Roedd dros 500 o gystadleuwyr yn Hanner Marathon Caernarfon ganol Awst, gyda rhedwyr yn tyrru yno o bob rhan o Ogledd Cymru a thu hwnt. Tom Roberts o Gaernarfon oedd yn fuddugol, ond llongyfarchion i Llion Iwan, y rhedwr cyntaf o fro'r *Eco*, yn cynrychioli Rhedwyr Eryri.

Mae nifer o rasys 5 cilomedr yn cael eu cynnal mewn gwahanol bentrefi bellach fel rhan o wyliau lleol. Eleni, cynhaliwyd ras 5k yn Llanbedrgoch ar Ynys Môn am y tro cyntaf erioed, a daeth bron i 150 o redwyr yno i gystadlu. Daeth Arwel Lewis, Bethel yn gyntaf yn yr adran dros 60 oed. Mewn ras gyffelyb yn Rhuthun, roedd 130 yn cystadlu, a'r tro hwn daeth Arwel yn ail yn ei ddosbarth.

**Rasys mynydd**

Mae tymor y rasys mynydd yn dirwyn i ben, ond daeth llwyddiant i dri o'r fro yn Ras Gladstone, Penmaenmawr ddechrau Medi. Gareth Hughes, Llanberis oedd yr enillydd; ond cafodd ail wobr gyntaf hefyd, sef y rhedwr cyntaf dros 40 oed. Dwy wobr gyntaf am redeg un ras! Alwyn Oliver, Dinorwig oedd y rhedwr cyntaf dros 70 oed – ac yntau ar drothwy ei benblwydd yn bedwar ugain! Yn adran y merched, roedd Anwen Hockley, Llanberis yn gyntaf yn yr adran dan 23 oed. Daeth Anwen hefyd yn ail ferch yn ras fynydd Moel Hebog ym mis Awst.

Croesi i Ewrop oedd hanes tad a brawd Anwen. Daeth Neal Hockley a'i fab, Deri yn gyntaf yn eu dosbarth ym Marathon Fynyddig Ryngwladol y Swisdir. Llongyfarchiadau mawr.

Bydd y ras fynydd leol olaf wedi ei chynnal erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd. Cynhelir Ras Pedol Peris ar Fedi 21ain; ras heriol sy'n cychwyn o Lanberis gan ddringo'r ddwy Elidir ac ymlaen ar hyd y grib i'r Glyder cyn disgyn i Ben Gorffwysfa a dringo'r Lliwedd, Yr Wyddfa a Moel Cynghorion cyn cyrraedd yn ôl i Lanberis.



Gareth Hughes yn derbyn ei wobr yn Ras Gladstone.

**Traws Gwlad**

Mae tymor y rasys mwdlyd ar ein gwarthaf, a chynhelir y gyntaf yng Nghynghrair Traws-Gwlad Gogledd Cymru ym Mharc Eirias, Bae Colwyn ar Hydref 5ed. Bydd yr ail yn y gyfres yn Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam bythefnos yn ddiweddarach.

COLOFN CHWARAEON

# Pencampwr Cymru

Mewn ras feicio a gynhaliwyd yn Llandrindod, daeth Sam Woodward o'r Waunfawr yn fuddugol wedi cystadleuaeth agos iawn. Gyda dim ond 500 metr i orffen y ras llwyddodd Sam i wthio ei olwyn flaen drwch blewyn o flaen gweddill y beicwyr.

Llongyfarchiadau i Sam, sydd â'r hawl i wisgo crys Pencampwr Cymru am y flwyddyn nesaf. Does ond gobeithio y bydd yn dilyn olwyn Gareth McGuiness o Lanrug ac yn anelu am ddod yn bencampwr byd mewn blynyddoedd i ddod.

# Sgyrsiau am Ddiwylliant Chwaraeon Gwynedd



Bydd cyfres o ddarlithoedd am agweddau ar ddiwylliant chwaraeon Gwynedd yn cael eu cynnal yn Storiel, Amgueddfa Gwynedd ym Mangor trwy gydol mis Hydref. Mae'r tair darlith yma yn cael eu llywio gan Dr Meilyr Emrys o Fethel, y pynciau yw:

Creu Cynghrair Pêl-droed Gogledd Cymru (2.00pm, 10fed Hydref)

Chwaraeon, Chwaraeon yng Nghymunedau Chwarelyddol Gwynedd (2.00pm, 17eg Hydref)

Y Cymry yn y Gemau Olympaidd yn 1900 a 1924 (2.00pm, 24ain Hydref)

Mae'r sgyrsiau am ddim a mae croeso cynnes i bawb.

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan Storiel: www.storiel.cymru

Neu i hawlio eich tocynnau ewch i: https://www.eventbrite.co.uk/d/united- kingdom--gwynedd/storiel/

# Pencampwr Byd – "Crys Enfys" i feiciwr o Lanrug







Llongyfarchiadau anferthol i Gareth McGuiness o Lanrug ar ennill Pencampwriaeth y Byd i feicwyr rhwng 55 a 60 oed. Cynhaliwyd y ras feicio yn Aalborg, Denmarc, gyda dros 250 o feicwyr yn cystadlu – a nifer dda ohonynt yn gyn feicwyr proffesiynol. Yn eu plith roedd y cyn feiciwr proffesiynol Mario Cipollini o'r Eidal, a enillodd y gystadleuaeth y llynedd. Er i Gareth ymosod yn gynnar yn y ras, methodd â thorri'n rhydd, ond o'r diwedd llwyddodd grŵp o tua deugain o feicwyr i ennill y blaen ar weddill y cystadleuwyr. Gyda deg cilomedr yn weddill, ymosododd Gareth unwaith yn rhagor, gyda beiciwr o Wlad Belg yn dynn wrth ei sodlau. Roedd Cipollini hefyd wedi llwyddo i dorri'n rhydd, ac yn ennill tir ar y ddau ar y blaen. Aeth yn ras wyllt am y llinell derfyn, a llwyddodd Gareth i groesi'n gyntaf, lai na dwy eiliad ar y blaen i'r cyn-bencampwr o'r Eidal.

Dywedodd Gareth ei bod yn ras galed iawn, ac y byddai wedi hoffi dwy neu dair o elltydd serth gan fod gelltydd o'r fath yn rhan o'i ymarfer yma yn Eryri. Er hynny, roedd yn hynod falch o ennill, yn enwedig o gysidro fod cymaint o gyn feiciwyr proffesiynol yn cystadlu. Mae'r hawl ganddo bellach i wisgo'r "Crys Enfys" am flwyddyn; arwydd lliwgar i bawb mewn unrhyw ras mai fo yw Pencampwr y Byd. Mae ei gyd-aelodau yng Nghlwb Beicio Egni, yma yng Ngwynedd, yn falch iawn o'i lwyddiant. Mae ennill yr hawl i wisgo'r "Crys Enfys" yn hufen ar ei holl lwyddiannau eraill ym myd beicio amatur, sy'n cynnwys pencampwriaethau Cymru dros y blynyddoedd.

Ymfalchiwn ninnau ym mro'r *Eco* yn ei lwyddiant, a does ond gobeithio y bydd beicwyr ifanc yn cael eu symbylu i ddilyn yn ôl ei droed – neu yn ei olwyn ôl.

## Llyfr *He's Down the Club* gan Richard Lloyd Jones

Llyfr sydd wedi ei ysgrifennu gan Richard Lloyd Jones yw *He's Down the Club*. Richard ei hun sydd wedi cyfrannu am flynyddoedd i Adran Chwaraeon yr *Eco*.

Adrodd ei yrfa ar y llain criced wna'r llyfr, a chawn straeon Richard a'r cymeriadau mae wedi dod ar eu traws gyda Chlwb Criced Bangor ac mewn clybiau criced ar hyd Gogledd Cymru.

Mae'r llyfr yn dechrau gyda dyddiau cynnar Richard o'i blentyndod ym mhentref Llandygai a'i gariad cynnar at griced. Cawn ei hanes wrth iddo chwarae ei gêm gyntaf i Ail Dîm Bangor, ac yntau ond yn 13 oed. Dyna ddechrau'r oriau a'r blynyddoedd di-ri y mae Richard wedi eu treulio ar y llain yn Nhŷ Newydd, cartref Clwb Criced Bangor.

Mae'r straeon yn cynnwys gyrfa gynnar Richard yn chwarae dros Ail Dim Bangor a'r cyffro o deithio Gogledd Cymru gyda'r tîm, a thalent Richard yn cael ei wobrwyo wrth iddo chware dros Ysgolion Sir Gaernarfon, cyn derbyn yr anrhydedd fwyaf a chael ei ddewis i dîm Ysgolion Cymru. Mae'n adrodd am y profiad o wisgo'r cap coch ar 12 achlysur.

Wedi gadael ysgol, symudodd Richard i'r Coleg Normal ym Mangor, ac enillodd gap arall dros Gymru, y tro hwn cap gwyrdd Colegau Cymru. Wedi ei ddyddiau yn y Coleg Normal, cawn bwt am ei gyfnod lawr yn Ne Cymru, a chyfarfod â'i briod Mary tra yn y De cyn i'r ddau symud yn ôl i fyw i'r Gogledd.

Ail ymunodd Richard â Chlwb Criced Bangor ym 1975, a dechrau 30 mlynedd di-stop o chware dros y Clwb. Cawn hanesion y llwyddiannau o fatiwr gorau Cynghrair Gogledd Cymru, Pencampwyr Gogledd Cymru 3 gwaith a'i dymor fel capten y Clwb. Hefyd ei 90 cap yn cynrychioli tîm Sir Gaernarfon, ac yn gapten ar dîm Gogledd Cymru yn erbyn De Cymru.

Cawn olwg ar ei yrfa fel athro yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy am 29 mlynedd, lle bu'n dysgu un o sêr criced Cymru, Matthew Maynard i chwarae, a'i amser yn hyfforddi'r to iau am 25 mlynedd gyda thim Criced Ysgolion Gwynedd ac Eryri, a'r balchder o ennill Pencampwriaeth Cymru ym 1999.

Mewn 41 tymor, chwaraeodd 1,000 o gemau i Bangor cyn ymddeol yn 2005. Mae Tŷ Newydd yn ail gartref i Richard; ac o'r llyfr cawn weld ei falchder yn y Clwb.

Mae'r llyfr yn ddiddorol ac yn werth ei ddarllen, yn crynhoi bywyd person sydd wedi rhoi cymaint i griced ym Mangor a Gogledd Cymru.

Cyhoeddir y llyfr gan Wasg Dwyfor, Penygroes.

**Elgan Rhys Jones**

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >